CYNLLUN LLESIANT CASNEWYDD 2018-23

Adroddiad Blynyddol 2020-21

NEWPORT BUS
ZERO EMISSIONS
GREENER | SMARTER | SAFER | #MAKETHESWITCH
ELECTRIC BUS
WE ARE FULLY CHARGED
NEWPORT BUS
Y070 CFN

RHAGAIR

Rydym yn falch o gyflwyno'r trydydd adroddiad blynyddol hwn ar y cynnydd a wnaed gan bartneriaeth Casnewydd yn Un yn ystod 2019-20, wrth gyflawni ystod o brosiectau, yn aml mewn amgylchiadau heriol, sy'n nodweddu'r pwrpas a rennir gennym, y cydweithio agos, a'r canolbwyntio ar gyflawni gwelliannau hirdymor o ran llesiant ein cymunedau.

Mae'r enghreifftiau a roddwyd yn dangos bod ein rhaglen waith a'n ffyrdd o weithio yn adlewyrchu egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; a'n dealltwriaeth fod lles yn beth sydd â sawl dimensiwn, sydd angen ymagwedd integredig ac sydd yn dibynnu arnom i weithio fel tîm sy'n hyrwyddo cyfranogiad ein cymunedau. Gyda hyn mewn golwg, rydym wedi cymryd camau ymlaen i ddefnyddio ymagwedd cyfalaf cymdeithasol ar draws ein rhaglen waith gan ganolbwyntio ar 'yr hyn sy'n gryf, yn hytrach na'r hyn sy'n anghywir'.

Ni ellir sôn am ehangder ein gwaith a'r astudiaethau achos niferus yn yr adroddiad hwn yn y rhagair hwn, ond roeddem am dynnu sylw at rywfaint o'r gwaith nodedig a wnaed yn ystod 2020-21.

Mae pawb yn teimlo'n dda am fyw, gweithio a buddsoddi yn ein dinas unigryw, ac am ymweld â hi. Casnewydd yn Un oedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) cyntaf yng Nghymru i lofnodi Siarter Creu Lleoedd Cymru. Bydd hyn yn sicrhau bod datblygiadau yn y dyfodol yn creu lleoedd o ansawdd uchel er budd cymunedau ac yn cefnogi ein hamcanion i gynnwys cymunedau wrth wneud penderfyniadau ac yn gwneud lleoedd yn fwy diogel a chroesawgar tra'n hyrwyddo cynaliadwyedd.

Mae'r gwaith o adfywio canol ein dinas yn parhau i fynd rhagddo o ran ailddatblygu adeiladau nodedig ac adeiladau treftadaeth gan gynnwys gwesty Tŵr y Siartwyr, adnewyddu Arcêd y Farchnad ac ailddatblygu'r Farchnad Dan Do. Mae swyddfeydd newydd bron â'u cwblhau yn Mill Street a chaiff ei gysylltu â chanol y ddinas gan bont droed teithio llesol newydd. Canolfan deori busnes digidol newydd yn yr hen orsaf reilffordd a fydd yn ategu'r Academi Meddalwedd Genedlaethol fawreddog, sydd eisoes wedi'i lleoli yn yr adeilad. Mae unedau tai fforddiadwy newydd, seilwaith gwyrdd a phrojectau mannau agored cyhoeddus yn rhoi bywyd o'r newydd i adeiladau ac ardaloedd adfeiliedig fel rhan o gynnig cynaliadwy, bywiog a deniadol yng nghanol y ddinas. Rhoddwyd hwb hefyd i ddyfodol canol y ddinas eleni gyda'r penderfyniad i ddatblygu cynlluniau ar gyfer cyfleuster chwaraeon a hamdden nodedig newydd ynghyd â champws newydd, canolog ar gyfer Coleg Gwent, a fydd, gyda'i gilydd, yn gwella cynnig Casnewydd yn fawr. Enghraifft o'r cynnydd a wnaed yng nghanol ein dinas, drwy weithio mewn partneriaeth, yw cyflawni statws y Faner Borffor sy'n rhoi'r sicrwydd bod economi nos Casnewydd yn ddiogel, yn amrywiol ac yn ddeniadol.

Os yw Casnewydd am gyrraedd ei llawn botensial fel dinas fodern ffyniannus a chynaliadwy, mae angen i bobl gael y sgiliau a'r cyfleoedd i ddatblygu, ffynnu a chyfrannu. Dros 2020-21, cynhaliodd partneriaid Casnewydd yn Un fentrau i hyrwyddo gyrfaoedd yn y sector digidol a'r diwydiant ffilm a theledu, y ddau ohonynt wedi sefydlu clystyrau twf yn ne Cymru. Yn yr un modd, mae'r gwaith parhaus ar y Fframwaith Ymgysylltu a Buddsoddi Ieuenctid yn sicrhau nad yw lefelau'r bobl ifanc 'nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant' yn cynyddu gan osgoi yr effeithiau hirdymor ar eu cyfleoedd bywyd a'u llesiant. Mae rhaglenni braenaru yn creu model blynyddoedd cynnar newydd, amlasiantaethol i roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant.

Mae Casnewydd yn Un yn cydnabod bod angen amgylcheddau iach ar bobl iach i gael byw. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn amlinellu rhai o'r prosiectau cyffrous a arweinir gan y gymuned, o bob rhan o'r ddinas, sy'n gwella, ac yn diogelu bioamrywiaeth ac yn creu mannau gwyrdd newydd i bobl eu mwynhau. Mae'r rhain wedi profi'n hanfodol bwysig yn ystod y pandemig ar adeg lle'r oedd llawer ohonom yn rhoi gwerthfawrogiad o'r mannau awyr agored yn ein hardaloedd a oedd yn ein galluogi i ymarfer corff a chymdeithasu'n ddiogel.

Mae pandemig Covid-19 wedi dangos i bartneriaid Casnewydd yn Un fod gennym gapasiti, potensial a gwydnwch aruthrol yn ein cymunedau. Mae nifer o enghreifftiau o ddinasyddion yn cynnig eu hunain, yn cydweithio ac yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl ac mae angen i ni gynnal a chefnogi'r 'cyfalaf cymdeithasol' hwn. Fel rhan o hyn, cynhaliodd partneriaid Casnewydd yn Un raglen gyllidebu gyfranogol gydag ymateb eithriadol gan grwpiau a oedd am gael gafael ar gyllid a hefyd gan ddinasyddion a oedd am gael 'dweud eu dweud' ynghylch sut y dylid gwario arian cyhoeddus. Mae llwyddiant y rhaglen hon wedi annog buddsoddiadau pellach mewn dulliau cyllidebu cyfranogol gan y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd, a fydd yn cryfhau cyfranogiad y cyhoedd, yn cynyddu cydweithredu ac yn helpu cymunedau i wella o effeithiau Covid-19.

Efallai y gwyddoch fod ffurfio Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus newydd i Went ar fin digwydd. Bydd hyn yn creu cyfleoedd newydd ar gyfer cydweithredu rhanbarthol, llywodraethiant symlach a chynllunio strategol. Bydd Casnewydd yn Un yn cael ei chynrychioli ar BGC Gwent a bydd yn sicrhau bod Casnewydd yn cael y ffocws a'r ystyriaeth unigryw a haedda fel dinas y rhanbarth. Rydym hefyd wedi ymrwymo i gynnal ein partneriaethau llwyddiannus yng Nghasnewydd a byddwn yn parhau i weithio ar ein cynllun llesiant presennol fel bod gennym lywodraethiant lleol cryf ar waith i ategu'r ymagwedd rhanbarthol newydd.

Rydym yn cydnabod ein bod yn dal i fod mewn cyfnod heriol iawn i'n cymunedau, ein busnesau a'n gwasanaethau cyhoeddus ac rydym wedi ymrwymo i roi'r arweinyddiaeth i gefnogi cymunedau, hyrwyddo adferiad a gwella llesiant. Fel partneriaeth, rydym yn gwrando ar bobl leol ac rydym yn ymwybodol bod yn rhaid i'r camau a gymerwn nawr sicrhau'r canlyniadau gorau posibl yn y blynyddoedd i ddod.

Gobeithiwn eich bod mor gadarnhaol ag yr ydym ni ynghylch y pethau cyffrous niferus sy'n digwydd yn ein dinas a byddem yn eich annog i rannu'r adroddiad hwn yn eang gyda'ch cydweithwyr a'ch cysylltiadau yng Nghasnewydd.

Y Cynghorydd Jane Mudd

Cadeirydd Casnewydd yn Un ac Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd

Guy Lacey

Dirprwy Gadeirydd, Casnewydd Yn Un a Phennaeth / Prif Weithredwr Coleg Gwent

TABL CYNNWYS

Rhagair

Pennod 1: CEFNDIR

Cyflwyniad

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Beth yw Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Casnewydd yn Un?

Beth yw'r Cynllun Llesiant Lleol?

Pennod 2: Y CYNLLUN

Cynllun Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Casnewydd yn Un

Ein Hamcanion Lles

Strwythur Cynllun Llesiant Lleol Casnewydd Yn Un

Pennod 3: CYNNYDD AR AMCAN

Mae pawb yn teimlo'n dda am fyw, gweithio a buddsoddi yn ein dinas unigryw, ac am ymweld â hi

Mae gan bawb y sgiliau a'r cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i ddatblygu a ffynnu ac i gyfrannu at ddinas ffyniannus a chynaliadwy

Mae pawb yn perthyn i gymunedau gwydn, cyfeillgar a chysylltiedig ac yn teimlo'n hyderus ac wedi'u grymuso i wella eu lles

Mae gan Gasnewydd amgylcheddau iach, diogel a gwydn gyda rhwydwaith teithio cynaliadwy integredig

Pennod 4: HUNANFYFYRIO

Gwerthuso Partneriaethau

Cynllun Camau Datblygu Byrddau

Adolygiad o'r Cynllun Llesiant

Symud i BGC Rhanbarthol

Pennod 5: PERFFORMIAD, LLYWODRAETHU AC ATEBOLRWYDD

Fframwaith Cyflawni a Pherfformiad

Mesur Cynnydd

Rheoli Risgiau Hirdymor

Atebolrwydd

Rhagor o wybodaeth

Cyflwyniad

Dyma drydydd Adroddiad Blynyddol Cynllun Llesiant Lleol Casnewydd 2018-23, sy'n trafod gwaith y bartneriaeth rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021, ynghyd ag unrhyw ddiweddariadau ychwanegol o Ebrill i Fehefin 2021. Mae'n dilyn yr ail adroddiad blynyddol, a gyhoeddwyd ar 14 Hydref 2020.

Caiff yr Adroddiad Blynyddol ei greu ar ôl gweithredu'r Cynllun Llesiant yn ei flwyddyn gyntaf ac ar gyfer pob blwyddyn wedyn. Mae'r trosolwg hwn yn cynnig cyfle i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) adolygu cynnydd yn erbyn pob un o'n pedwar amcan llesiant gan nodi meysydd arfer da trwy ddefnyddio'r fframwaith canlynol:

- Disgrifiad o'r astudiaeth achos / enghraifft
- Pa un/pa rai o'r ymyriadau a'r nodau llesiant y mae hyn yn berthnasol iddo/iddynt?
- Sut cafodd y 5 Ffordd o Weithio eu defnyddio?
- Pa fesurau perfformiad a ddefnyddiwyd i ddangos cynnydd?
- Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Er mwyn cydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, byddai'r adroddiad fod wedi'i gyhoeddi ar 3 Gorffennaf 2021. Gydag effaith barhaus Covid-19 a'r symud i BGC Rhanbarthol, cytunwyd i ohirio cyhoeddi tan ddiwedd Medi 2021.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymwneud â gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Ei nod yw sicrhau bod y cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf yn fwy ystyriol o'r hirdymor, yn gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a gyda'i gilydd, wrth geisio atal problemau a mabwysiadu ymagwedd fwy cyfunol.

Mae'r Ddeddf yn nodi "egwyddor datblygu cynaliadwy" sy'n ymwneud â sut mae cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf yn mynd ati i gyflawni eu dyletswydd lles dan y Ddeddf. Mae'r egwyddor yn cynnwys pum modd o weithio y mae angen i gyrff cyhoeddus dalu sylw iddynt wrth weithredu datblygu cynaliadwy.

Mae'r Ddeddf yn nodi saith nod lles sy'n cynnig gyda'i gilydd weledigaeth a rennir i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf i weithio tuag ati. Mae'n rhaid i'r nodau hyn gael eu hystyried fel set integredig o saith er mwyn sicrhau y caiff y cysylltiadau perthnasol eu gwneud yng nghyd-destun gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Yn ogystal â'r ddyletswydd lles a roddir ar y cyrff cyhoeddus a restrir ar wahân, mae'r Ddeddf hefyd yn gosod dyletswydd lles ar gyrff cyhoeddus penodol i weithio ar y cyd drwy fyrddau gwasanaethau cyhoeddus gan gyfrannu at y gwaith o gyflawni'r nodau lles.

Beth yw Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Casnewydd yn Un?

Mae'r Ddeddf yn sefydlu bwrdd statudol o'r enw Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mhob ardal awdurdod lleol. Yng Nghasnewydd, mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Casnewydd yn Un yn dod ag arweinyddiaeth y gwasanaethau cyhoeddus a'r rheiny sy'n gwneud y penderfyniadau at ei gilydd. Mae'r aelodaeth yn cynnwys pedwar partner statudol ac ystod eang o bartneriaid gwadd, sydd fel a ganlyn:

Cyngor Dinas Casnewydd	Cyfoeth Naturiol Cymru
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Gwasanaethau Prawf	Coleg Gwent
Prifysgol De Cymru	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Heddlu Gwent	Casnewydd Byw yn cynrychioli'r sector diwylliant
Partneriaeth Trydydd Sector Casnewydd	Cyngor Ieuenctid Casnewydd
Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Gwent	Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent
Llywodraeth Cymru	Cartrefi Dinas Caerdydd yn cynrychioli'r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig

Ar y cyd, mae aelodau y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gyfrifol am ddatblygu Cynllun Lles Casnewydd 2018-23; gyda chefnogaeth partneriaeth ehangach ar draws y ddinas.

Tan nawr bu gan bob awdurdod lleol yng Ngwent ei BGC ei hun. O fis Medi 2021 bydd un BGC Gwent yn uno'r holl bartneriaid gwasanaethau cyhoeddus yng Ngwent i lunio asesiad llesiant rhanbarthol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cynllun llesiant rhanbarthol erbyn 2023. Yng Nghasnewydd rydym wedi ymrwymo i gynnal partneriaeth leol gref a fydd yn cefnogi BGC Gwent a sicrhau ein bod yn cyflawni ein Cynllun Llesiant presennol.

Beth yw'r Cynllun Lles Lleol?

Cafodd y cynllun lles lleol pum mlynedd ei gyhoeddi ar 3 Mai 2018 ac mae'n nodi blaenoriaethau a chamau gweithredu'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus hyd at 2023 o ran gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Casnewydd. Mae'r cynllun yn nodi amcanion, blaenoriaethau a chamau lles lleol y mae'r bwrdd yn cynnig eu cymryd er mwyn bodloni'r amcanion a dyma'r prif gynllun gwaith a chanolbwynt y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus.

Yn ystod 2020-21, adolygodd y BGC bob un o'r Ymyriadau o fewn y cynllun llesiant i sicrhau bod eu gweledigaethau a'u camau yn dal i fod yn rhai perthnasol o ystyried effaith Covid-19 a'r problemau sy'n dod i'r amlwg. Ceir rhagor o fanylion am yr adolygiadau hyn ym Mhennod 4.

Cynllun Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Casnewydd yn Un

Wrth ddatblygu'r cynllun, fe wnaethom ddefnyddio'r Proffiliau Llesiant Cymunedol a grëwyd yn ystod asesiad o lesiant lleol. Diolch i'r proffiliau hyn bu'n bosibl i aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus weithio gyda phartneriaid eraill a gweithwyr proffesiynol i gytuno ar dair prif flaenoriaeth ar ddeg i greu sylfaen y cynllun. Y blaenoriaethau oedd fel a ganlyn:

Llesiant Economaidd

1. *Gwella canfyddiadau o Gasnewydd fel lle i fyw, gweithio, buddsoddi ynddo ac ymweld â hi*
2. *Cynyddu lefel y sgiliau ar gyfer llesiant economaidd a chymdeithasol*
3. *Cefnogi adfywio a thwf economaidd*

Lles Cymdeithasol

4. *Darparu'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant a phobl ifanc*
5. *Bywydau hir ac iach i bawb*
6. *Sicrhau bod pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cymunedau*
7. *Mae pobl yn gallu manteisio ar gartrefi sefydlog mewn cymuned gynaliadwy a chefnogol*

Lles Diwylliannol

8. *Mae pobl yn teimlo'n rhan o'u cymuned ac yn teimlo eu bod yn perthyn*
9. *Mae cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol yn bwysig i lesiant pobl*
10. *Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau celf, treftadaeth a hanes yn bwysig i lesiant pobl*

Lles Amgylcheddol

11. *Mae gan Gasnewydd amgylchedd glân a diogel i bobl ei ddefnyddio a'i fwynhau*
12. *Gwella ansawdd aer ar draws y ddinas*
13. *Mae cymunedau yn gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd*

Ein Hamcanion Lles

Roedd angen i'r cynllun llesiant osod amcanion llesiant lleol yn ogystal â'r camau a gynigiom i gyrraedd yr amcanion. Yn unol â'r pum modd o weithio, datblygwyd pedwar amcan llesiant sy'n cyflawni yn erbyn nodau llesiant lluosog ac sy'n cwmpasu y tair blaenoriaeth ar ddeg a nodwyd.

Yr amcanion llesiant a gytunwyd gan y BGC oedd:

1. *Mae pobl yn teimlo'n gadarnhaol am fyw, gweithio, buddsoddi yng Nghasnewydd ac ymweld â hi.*
2. *Mae gan bobl sgiliau a chyfleoedd i ddod o hyd i waith addas a chyfrannu at dwf economaidd cynaliadwy*
3. *Mae pobl a chymunedau yn gyfeillgar, hyderus ac wedi eu grymuso i wella eu llesiant*
4. *Mae gan Gasnewydd amgylcheddau iach, diogel a gwydn*

Ar 8 Rhagfyr 2020, cytunodd y BGC i gyfres o amcanion llesiant diwygiedig, sydd fel a ganlyn (gweler Pennod 4 am ragor o fanylion):

1. *Mae pawb yn teimlo'n dda am fyw, gweithio a buddsoddi yn ein dinas unigryw, ac am ymweld â hi*
2. *Mae gan bawb y sgiliau a'r cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i ddatblygu a ffynnu ac i gyfrannu at ddinas ffyniannus a chynaliadwy*
3. *Mae pawb yn perthyn i gymunedau gwydn, cyfeillgar a chysylltiedig ac yn teimlo'n hyderus ac wedi'u grymuso i wella eu lles*
4. *Mae gan Gasnewydd amgylcheddau iach, diogel a gwydn gyda rhwydwaith teithio cynaliadwy integredig*

Wrth edrych ar y blaenoriaethau, yn hytrach na'u rhesymoli, nodom bum ymyriad trawsgysylltiol a fyddai'n cwmpasu'r blaenoriaethau hyn ac yn sicrhau'r cyfraniad gorau posibl tuag at y Nodau a'r Amcanion Lles. Yr ymyriadau a ddewiswyd oedd:

- *"Cynnig" Casnewydd*
- *Cymunedau Cryf a Gwydn*
- *Sgiliau Cywir*
- *Mannau Gwyrdd a Diogel*
- *Teithio Cynaliadwy*

Ceir manylion ar y cynnydd yn erbyn pob ymyriad yn y bennod nesaf.

Strwythur Cynllun Llesiant Lleol Casnewydd Yn Un

Mae'r strwythur hwn yn dangos sut mae'r nodau, amcanion, blaenoriaethau ac ymyriadau yn gysylltiedig.

Nodau Lles

Cymru lewyrchus	Cymru gydnerth	Cymru iachach	Cymru fwy cyfartal	Cymru o gymunedau cydlynus	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang

Amcanion Lles

Mae pawb yn teimlo'n dda am fyw, gweithio a buddsoddi yn ein dinas unigryw, ac am ymweld â hi	Mae gan bawb y sgiliau a'r cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i ddatblygu a ffynnu ac i gyfrannu at ddinas ffyniannus a chynaliadwy	Mae pawb yn perthyn i gymunedau gwydn, cyfeillgar a chysylltiedig ac yn teimlo'n hyderus ac wedi'u grymuso i wella eu lles	Mae gan Gasnewydd amgylcheddau iach, diogel a gwydn gyda rhwydwaith teithio cynaliadwy integredig

Blaenoriaethau

Economaidd			Cymdeithasol				Diwylliannol			Amgylcheddol		
1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12	13

Ymyriadau Integredig

"Cynnig" Casnewydd	Cymunedau Cryf a Gwydn	Sgiliau Cywir	Mannau Gwyrdd a Diogel	Teithio Cynaliadwy

Mae pawb yn teimlo'n dda am fyw, gweithio a buddsoddi yn ein dinas unigryw, ac am ymweld â hi

Er mwyn dangos y cynnydd a wnaed yn erbyn yr amcan lles hwn yn ystod 2020-21 nodwyd nifer o astudiaethau achos. Mae pob astudiaeth achos / enghraifft yn cynnwys y manylion canlynol: disgrifiad byr; pa Ymyriad(au) a Nodau Lles y mae'n ymwneud â nhw; sut y defnyddiwyd y Pum Ffordd o Weithio; unrhyw fesurau perfformiad; a chynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Siarter Creu Lleoedd Cymru



Casnewydd yn Un oedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) cyntaf yng Nghymru i lofnodi Siarter Creu Lleoedd Cymru, a lansiwyd ym Mehefin 2020.

Creu Lleoedd Cymru
Placemaking Wales
Llofnodydd y Siarter | Charter Signatory

Mae'r Siarter yn ymrwymiad i "*gefnogi datblygiad lleoedd o ansawdd da ledled Cymru er budd cymunedau*". Mae'n hyrwyddo cyfres o chwe egwyddor sy'n cyfrannu at sefydlu a chynnal lleoedd da. Y rhain yw:

- Cynnwys y gymuned leol wrth ddatblygu cynigion
- Dewis lleoliadau cynaliadwy ar gyfer datblygiadau newydd
- Rhoi blaenoriaeth i gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus
- Creu strydoedd a mannau cyhoeddus diogel a chroesawgar sydd wedi'u diffinio'n dda
- Hyrwyddo cymysgedd cynaliadwy o ddefnyddiau i wneud lleoedd yn fywiog
- Gwerthfawrogi a pharchu rhinweddau a hunaniaeth unigryw gadarnhaol lleoedd sy'n bodoli eisoes

Mae'r BGC wedi ymgorffori'r Siarter yn ei waith Cynnig Casnewydd ac mae'n rhan o Bartneriaeth Cymru Gyfan sy'n ei datblygu.

Pum Ffordd o Weithio

Mae hyn yn ymwneud â datblygiadau newydd yn ogystal â rhai sy'n bodoli eisoes, gan sicrhau bod cymunedau cynhwysol a bywiog, wedi'u cysylltu'n gymdeithasol yn cael eu darparu ar gyfer y **hirdymor**. Ei nod yw **atal** lleoedd sy'n methu â diwallu anghenion cymunedau lleol. Mae **integreiddiad** gyda'r ymyriadau yn y Cynllun Llesiant ar gyfer y ddinas, yn arbennig felly Gynnig Casnewydd, Teithio Cynaliadwy a Mannau Gwyrdd a Diogel. Mae'r Siarter yn adeiladu ar ffocws Polisi Cynllunio Cymru ar greu lleoedd ac mae'n cyfrannu at gyflawni Nodau Llesiant Cymru, gyda Llywodraeth Cymru yn bartner yn ei datblygiad. Gall lleoedd sydd wedi'u cynllunio'n dda gefnogi lles amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd. Mae Partneriaeth Creu Lleoedd Cymru yn dwyn ynghyd fwy na 25 o sefydliadau i **gydweithio**, gan gynnwys y BGC, sydd wedi ymrwymo i fynd â'r Siarter rhagddo. Un o egwyddorion allweddol Siarter Creu Lleoedd Cymru yw **cynnwys** y gymuned leol wrth ddatblygu cynigion fel bod anghenion, dyheadau, iechyd a lles pawb yn cael eu hystyried ar y dechrau.

Edrych Ymlaen at y Dyfodol

Mae'r BGC yn aelod o Bartneriaeth Creu Lleoedd Cymru a fydd yn bwrw ymlaen â'r Siarter. Mae'r BGC wedi adolygu ei ymyriad Cynnig Casnewydd yn ddiweddar ac wedi ychwanegu cam gweithredu newydd i "Ddatblygu lleoedd o ansawdd da yn unol â Siarter Creu Lleoedd Cymru".

Gwyrddio Canol y Ddinas – Gerddi Dŵr Glaw Bwa Gwyrdd a Bioamrywiaeth Well



Gosodwyd gerddi dŵr glaw newydd, a phlannu gwell i gynyddu bioamrywiaeth, ym mis Mehefin 2021 yn dilyn rhywfaint o oedi oherwydd Covid-19, ar hyd glan yr afon a ger cylchfan Queensway fel rhan o brosiect Bwa Gwyrdd Gwyrddio Canol y Ddinas.

1. Gardd dŵr glaw a phlanhigion newydd ger adeilad Admiral, Queensway
2. Dwy ardd dŵr glaw a phlanhigion newydd ger Y Don, Glan yr Afon
3. Plannu newydd yng nghylchfan Queensway

Bu Cyngor Dinas Casnewydd a Chyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio mewn partneriaeth i gael cyllid i gefnogi datblygu Seilwaith Gwyrdd (SG) yng Nghanol y Ddinas. Cyflwynwyd cais ym mis Tachwedd 2019 i Raglen Fuddsoddi Adfywio Targedig Llywodraeth Cymru: Prosiect Seilwaith Gwyrdd a Bioamrywiaeth Canol y Dref 2020-21.

<u>Cyn</u>

Mae'r peilot hwn wedi bod yn brawf llwyddiannus mewn ehangu Seilwaith Gwyrdd mewn ardal ddinesig. Mae wedi helpu i roi hwb i gynnig atebion sy'n seiliedig ar natur ar gyfer draenio cynaliadwy a gwell bioamrywiaeth yng nghanol y ddinas. Mae wedi helpu i gydnabod gwerth seilwaith gwyrdd a glas a'r manteision iechyd a lles a ddaw yn ei sgil i drigolion y Ddinas.

<u>Ar ôl</u>

Mae gwyrddio a gwell plannu yn arwain at fanteision lluosog, i economi gynaliadwy ymhlith eraill. Mae Seilwaith Gwyrdd yn cynyddu bioamrywiaeth, mae o fantais i iechyd a lles pobl, mae'n helpu i oeri'r ddinas gan liniaru effaith 'ynys wres', ac yn gwneud y ddinas yn fwy deniadol yn weledol gan ddenu mwy o bobl i fusnesau canol y ddinas.

Pum Ffordd o Weithio

Lluniwyd dyluniadau ar gyfer rhagor o erddi dŵr glaw, a gwnaed cais am gyllid. Mae potensial i gydweithio ymhellach gyda Dŵr Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd sydd â pherygl o lifogydd. Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn gwneud gwaith cynnal a chadw parhaus am yr **hirdymor**. Mae'r gerddi dŵr glaw yn cefnogi gwydnwch ecosystemau ac yn lliniaru newid yn yr hinsawdd, drwy **atal** llifogydd ac arafu dŵr glaw sy'n casglu ar yr wyneb rhag llifo i ffwrdd. Mae'r prosiect hwn yn helpu i gynyddu bioamrywiaeth ac yn cyfrannu tuag at atal argyfwng yn y byd natur. Roedd gwaith pob partner yn cydnabod yr ystod drawsbynciol eang o fanteision y mae adfer a gwella natur yn eu cyflwyno i'r holl nodau llesiant **integredig**, gan gefnogi llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. Mae timau Cyngor Dinas Casnewydd a Chyfoeth Naturiol Cymru wedi gweithio mewn **cydweithrediad** i sicrhau cyllid ac wedi gweithio gyda chontractwyr ar gyfer dyluniadau a chyngor. Bwriedir cydweithio ymhellach â Dŵr Cymru ar osod mwy o erddi dŵr glaw, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd. Bydd y cynlluniau'n cyd-fynd â'r cyfleuster hamdden newydd a gynlluniwyd ar gyfer glan yr afon. Mae'r prosiect yn cyd-fynd â nodau rhanddeiliaid ar y Rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diogel, ond byddwn yn ceisio **cyfranogiad** gan bartneriaid a chymunedau ar gynlluniau yn y dyfodol ac yn rhannu dysgu gydag eraill.

Mesurau Perfformiad

Byddwn yn ceisio mesur y mesurau canlynol dros gyfnod: Canran cyfanswm y "mannau gwyrdd trefol" hygyrch / Canran cyfanswm y mannau gwyrdd a'r seilwaith gwyrdd / Canran y natur o ansawdd da / Dangosydd Cenedlaethol 44: Statws amrywiaeth biolegol yng Nghymru (Casnewydd).

*Mae mesurau perfformiad Mannau Gwyrdd a Diogel yn cael eu hadnewyddu ar hyn o bryd.

Edrych Ymlaen at y Dyfodol

Mae dyluniadau technegol eisoes wedi'u llunio ar gyfer safleoedd pellach.

Cynlluniau'r Dyfodol:

1. Ger ardal Pont Droed Dinas Casnewydd - cynhyrchwyd dichonoldeb a dyluniadau.
2. Ger cyfleuster hamdden newydd ar Usk Way, Glan yr Afon - cynhyrchwyd dichonoldeb a dyluniadau.
3. Fel rhan o gais ar wahân am gyllid, mae'r gerddi glaw wedi'u cynllunio a'u cymeradwyo ar gyfer pont droed Devon Place, ar gyfer gwanwyn 2022.

Mae'r cynllun peilot wedi meithrin hyder, gwybodaeth ac wedi dangos yr effaith lwyddiannus. Bydd gerddi glaw ar bont droed Devon Place yn cael eu creu fel rhan o'r gofyniad Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS), yn rhan o ffrwd ariannu ar wahân.

Gyda chyllid pellach, mae'n bosib y gellir creu rhagor o erddi dŵr glaw, yn enwedig mewn ardaloedd sydd â pherygl o lifogydd.



Adfywio Canol y Ddinas



Mae Pandemig Covid-19 wedi cael effaith ddofn ar Ganol y Ddinas a'i heconomi a'i phroffil busnes. Mae cyfnodau cloi dilynol a newid dros nos tuag at weithio gartref a manwerthu ar-lein wedi gweld cwymp terfynol nifer o gadwyni'r stryd fawr. Er gwaethaf cefnogaeth y Cyngor, roedd hyn yn cynnwys brand Debenhams, y siop angor yng nghanolfan Friars Walk. Mae'r realiti newydd wedi ail-ganolbwyntio ymdrechion ar dyfu ac arallgyfeirio sylfaen fusnes Canol y Ddinas, a denu buddsoddwyr newydd.

Er gwaethaf yr heriau economaidd a gyflwynwyd, gwnaeth y Cyngor a'i bartneriaid gynnydd cadarnhaol ar raglen Adfywio Canol y Ddinas gan gynnwys nifer o brosiectau allweddol a nodwyd yn y prif gynllun.

Cafodd agoriad gwesty Tŵr y Siartwyr, a oedd fod i ddigwydd yn gynnar yn 2020, ei ohirio gan y pandemig gyda'r sector lletygarwch ymhlith y rhai gafodd eu taro waethaf. Serch hynny, llwyddodd y datblygiad defnydd cymysg i ddenu nifer o denantiaid newydd gan gynnwys y South Wales Argus, a symudodd eu swyddfeydd i Ganol y Ddinas.

Mae'r gwaith o adnewyddu Arcêd Marchnad Fictoraidd y ddinas wedi mynd rhagddo'n eithriadol o dda. Rhagwelir y bydd y gwaith wedi'i gwblhau cyn diwedd y flwyddyn. Mewn cydweithrediad â'r gwahanol berchnogion eiddo, gweithredwyd Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus gan y Cyngor sy'n sicrhau bod yr Arcêd yn cael ei ddiogelu dros nos. Mae'r Cynllun Gweithgareddau ar gyfer y prosiect, sy'n cynnwys ymgysylltu ag ysgolion, prifysgolion, cymdeithasau treftadaeth a defnyddwyr y Ganolfan, wedi mynd rhagddo'n gyflym, gyda nifer o ffilmiau byrion yn cael eu cynhyrchu i ddathlu a chofnodi hanes a phwysigrwydd yr Arcêd.

MARKET ARCADE
NEWPORT
CASNEWYDD
ARCÈD MARCHNAD

Ger yr Arcêd, mae adeilad treftadaeth allweddol arall wedi dechrau ar gyfnod newydd yn ei hanes wrth i ailddatblygu'r Farchnad Dan Do ddechrau. Wedi'i drefnu i'w gwblhau yn ystod Gaeaf 2021, bydd yr ailddatblygiad yn creu marchnad draddodiadol wedi'i hadfywio ochr yn ochr â gofod swyddfa defnydd-hyblyg sy'n berthnasol i'r byd newydd o weithio ystwyth a lefelau uwch o entrepreneuriaeth.

Mae prosiect gwahanol iawn ar ochr arall y rheilffordd yn Stryd y Felin yn adleisio'r thema hon o weithfannau hyblyg. Mae'r prosiect bron â'i gwblhau ac yn barod i'w feddiannu, a bydd y gofod diwydiannol modern a gyflwynir yn helpu i sicrhau bod gan ganol y ddinas amrywiaeth o swyddfeydd sy'n addas ar gyfer pob angen. Pan fydd y bont droed Teithio Llesol newydd dros y rheilffordd yn weithredol yn ystod Gaeaf 2021, bydd Hyb Stryd y Felin wedi'i gysylltu'n iawn â Chanol y Ddinas.

Mae'r telerau'n cael eu cwblhau gyda Tramshed Tech, un o fentrau deori mwyaf llwyddiannus Cymru, i feddiannu lloriau isaf hen adeilad yr orsaf reilffordd a darparu gofod i fusnesau newydd yn y sectorau digidol, technolegol a chreadigol. Bydd hyn yn ategu'r defnydd o'r lloriau uchaf gan Academi Feddalwedd Genedlaethol fawreddog Prifysgol Caerdydd ac yn cefnogi rôl Casnewydd fel hyb digidol blaenllaw i'r Ddinas-ranbarth, ac yn hybu galw am y gofod hyblyg a ddatblygwyd mewn rhannau eraill o ganol y ddinas.

Mae Canol y Ddinas yn parhau i fod yn lle y bydd mwy a mwy o bobl yn byw yn ogystal â gweithio ynddo. Ar ôl cwblhau canolfan fflatiau dros 55 oed Central View, mae ailddatblygiad Cartrefi Dinas Casnewydd o Dŷ Olympia wedi mynd rhagddo gyda chymorth gan y Cyngor drwy raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru. Mae'r gwaith o adnewyddu Castle View ar Upper Dock Street hefyd wedi'i gwblhau, gan ddarparu cartrefi newydd i berchnogion preifat a helpu i sicrhau bod y tai yng nghanol y ddinas yn cynnig y cyfuniad cywir o ddeiliadaethau.

Mae ein gwaith yng nghanol y ddinas yn cynnwys galluogi pobl i fwynhau mannau agored deniadol. Gan weithio mewn partneriaeth â CNC a Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru mae nifer o gynlluniau peilot seilwaith gwyrdd wedi'u rhoi ar waith ar hyd glan yr afon.

Yn olaf, roedd nifer o grantiau bach ar gael i alluogi busnesau i barhau i fasnachu drwy'r cyfnod o gyfyngiadau a roddwyd ar waith i leddfu lledaeniad coronafeirws dros y gaeaf. Roedd grantiau ar gael i helpu gyda chreu seddi awyr agored, mesurau diogelwch ac offer oedd eu hangen i sicrhau bod cynifer â phosib o'r busnesau yng Nghanol y Ddinas yn gallu llywio'r cyfnod masnachu mwyaf heriol yn eu hanes.

Pum Ffordd o Weithio

Mae gan y gwaith o adfywio Canol y Ddinas amserlen **hirdymor** sy'n canolbwyntio ar brosiectau a fydd yn llywio perfformiad a chynaliadwyedd canol y ddinas yn y dyfodol, yn ogystal â gwella bywiogrwydd y lle yn y tymor byr a'r tymor canolig. Mae amrywio'r cynnig economaidd a defnyddiau cyffredin yn gysylltiedig yn ei hanfod â chefnogi cynaliadwyedd economaidd hirdymor canol y ddinas. Canlyniad allweddol yw **atal** dirywiad yng nghanol y ddinas o ran ei fywiogrwydd ond hefyd, ei dreftadaeth bensaernïol drwy roi bywyd newydd i adeiladau hanesyddol sydd mewn perygl gan eu bod yn wag ac yn adfeiliedig. Yn sgil y pandemig, os gellir defnyddio'r adeiladau hyn i dyfu a

chynnal ecosystem o fusnesau newydd, yna gellir lliniaru risgiau sy'n ymwneud â diweithdra ac anfantais economaidd hefyd. Mae'r gwaith o adfywio canol y ddinas yn rhan o Uwchgynllun Canol y Ddinas. Mae'r gwaith yn rhan o ymyriad Cynnig Casnewydd ond wedi'i **integreiddio**'n agos ag ymyriadau eraill a'r Amcanion Lles cyffredinol drwy greu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth, hyfforddiant a datblygu sgiliau, drwy gefnogi cymuned gadarn yng nghanol y ddinas, drwy gynnwys defnydd o fannau agored diogel a chynnwys opsiynau ar gyfer teithio llesol a mwy cynaliadwy. Mae'r gwaith o gyflawni projectau adfywio a chynnal a chadw canol dinas deniadol, croesawgar a diogel wedi dibynnu ar **gydweithio** rhwng partneriaid yn y sector cyhoeddus ond hefyd cydweithio helaeth â chymuned fusnes canol y ddinas, y sector gwirfoddol, a datblygwyr a buddsoddwyr y sector preifat sy'n gweithio o fewn fframwaith uwchgynllun hirdymor. Mae prosiectau adfywio wedi **cynnwys** partneriaethau lleol gan gynnwys Newport Now, Ardal Gwella Busnes canol y ddinas, treftadaeth, ysgolion a grwpiau cymunedol, ac adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae prosiectau wedi annog y cyhoedd i gymryd rhan uniongyrchol yn y gwaith o rannu atgofion, dysgu am hanes y ddinas a hefyd, yn achos prosiect Arcêd y Farchnad, cyfrannu gyda'u creadigrwydd eu hunain.

Edrych Ymlaen at y Dyfodol

Bydd partneriaid yn parhau i gydweithio i sicrhau bod gan ganol y ddinas gynnig deniadol fel lle i weithio, astudio, byw a buddsoddi ac ymweld ag ef. Bydd gwaith ar draws ein hymyriadau yn cyfrannu at adfywio canol y ddinas a byddwn yn ystyried Siarter Creu Lleoedd Cymru wrth gyflawni hyn. Byddwn hefyd yn parhau i weithio mewn partneriaeth â buddsoddwyr a busnesau yn y sector preifat ar gyflawni prosiectau blaenllaw trawsnewidiol. Bydd prosiectau allweddol yn cael eu cwblhau yn ail hanner 2021, a bydd creu'r naratif, y canfyddiad, y croeso a'r gefnogaeth gywir i feddianwyr busnes newydd, ymwelwyr a defnyddwyr gwasanaethau sy'n dod i Ganol y Ddinas ar gefn cwlbhau'r prosiectau hyn yn hanfodol i gynnal adfywiad parhaus Canol y Ddinas.

Baner Borffor





Yn dilyn blynyddoedd o weithio mewn partneriaeth, dyfarnwyd statws mawreddog y Faner Borffor i Gasnewydd yn 2020-21 i gydnabod economi ffyniannus y Ddinas gyda'r nos ac ymlaen i'r hwyr.

Mae'r Faner Borffor – sy'n debyg i'r Faner Las ar gyfer traethau – yn wobr ryngwladol i godi'r safonau ac ehangu apêl canol trefi a dinasoedd o'r cyfnos hyd yr hwyr.

Mae'r Faner Borffor yn broses achredu sy'n cael ei rhedeg gan y Gymdeithas Rheoli Trefi a Dinasoedd (ATCM) a dyma'r meincnod ar gyfer cyrchfannau da yn ystod y nos. Cydnabyddir ardaloedd sydd wedi ennill Baner Borffor am ddarparu cymysgedd amrywiol a bywiog o dai bwyta, adloniant a diwylliant tra'n hyrwyddo diogelwch a lles ymwelwyr a thrigolion lleol. Neu, i'w roi yn syml, mae statws Baner Borffor yn dangos ble i fynd am noson dda a diogel allan! Ac mae hyn yn golygu nid yn unig dafarndai a chlybiau ond ystod eang o weithgareddau gan gynnwys y celfyddydau a diwylliant, hamdden, bwyta allan a digwyddiadau i bobl o bob oed.

Mae Canol Dinas Casnewydd wedi ticio'r holl flychau gyda nifer cynyddol o fwytai, caffis ac atyniadau, yn ogystal â digwyddiadau diwylliannol mawr sy'n denu ymwelwyr a thrigolion o bob oed, ond mae hefyd yn cydnabod y gall Casnewydd dyfu a gwella'r arlwy yng nghanol y ddinas ymhellach gyda sylfeini rhagorol eisoes ar waith.

I gael rhagor o wybodaeth am y wobr, ewch i www.atcm.org/purple-flag.

Pum Ffordd o Weithio

Mae'r Faner Borffor yn ymwneud â chefnogi economi ffyniannus gyda'r nos ac ymlaen i'r hwyr yn y tymor byr a'r **tymor hirach**, gan gynnig yr amgylchedd cywir ar gyfer bywiogrwydd busnesau, ac awyrgylch dinesig sy'n creu canfyddiadau cadarnhaol ac yn paratoi'r ffordd ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol. Ar yr un pryd gall gwaith o dan gynllun y Faner Borffor **atal** ymddygiad gwrthgymdeithasol, amgylchedd anniogel a phroblemau eraill a allai arwain at ganfyddiadau negyddol a hyd yn oed ddirywiad. Mae **Cydweithio** wrth wraidd y gwaith hwn, sy'n dwyn ynghyd bartneriaid yn y sector cyhoeddus, y gymuned fusnes, a'r sector gwirfoddol. Mae hefyd yn sail i **integreiddiad** rhwng cyflawni'r Cynllun Llesiant, gwaith Partneriaeth Casnewydd Ddiogelach ac amcanion Ardal Gwella Busnes Newport Now. Mae deall y newid mewn canfyddiadau ymhlith trigolion, busnesau a rhanddeiliaid economi Casnewydd fin nos ac ar ôl iddi nosi yn broses barhaus o ran monitro ein llwyddiant wrth godi safonau ac ehangu apêl economi'r nos yng Nghasnewydd. Cynhelir arolygon yn rheolaidd i geisio barn pobl leol ac mae **cyfranogiad** busnesau yn ganolog i sicrhau bod defnyddwyr canol y ddinas yn teimlo'n ddiogel, yn cael croeso a gofal cwsmeriaid o safon uchel.

Edrych Ymlaen at y Dyfodol

Bydd amrywiaeth o asiantaethau a sefydliadau lleol gan gynnwys tîm trwyddedu Cyngor Dinas Casnewydd, Heddlu Gwent, Ardal Gwella Busnes Newport Now, partneriaeth Casnewydd Ddiogelach a chynrychiolwyr o'r gymuned fusnes a'r sector gwirfoddol yn parhau i gydweithio i sicrhau bod y ddinas yn parhau i gynnig adloniant gwych, lletygarwch eithriadol a noson allan ddiogel i ymwelwyr.

Canolfan hamdden newydd canol y ddinas a champws Coleg Gwent





Yn ystod y flwyddyn, buon ni'n ymgynghori ar ddisodli cyfleuster chwaraeon a hamdden Canolfan Casnewydd gyda chanolfan iechyd a lles newydd ar lan yr afon yng nghanol y ddinas a chreu campws newydd ar gyfer Coleg Gwent ar safle Canolfan Casnewydd.

Mae cyflwr llawer o'r cyfleusterau yng Nghanolfan Casnewydd wedi dirywio oherwydd eu hoedran ac mae rhai ar ddiwedd eu hoes defnyddiadwy. Yn yr un modd, mae angen buddsoddiad sylweddol ar gampws Nash Coleg Gwent.

Cynhaliwyd y cyfnod ymgynghori o 17 Rhagfyr 2020 i 29 Ionawr 2021, gan ddefnyddio ystod o ddulliau cyfathrebu ac ymgysylltu a daeth 1,022 o ymatebion i law. O'r rhai a ymatebodd, nododd 94% yr hoffent weld cyfleusterau hamdden a lles newydd yng Nghasnewydd a nododd 85% eu bod yn cefnogi ailddefnyddio Canolfan Casnewydd fel campws coleg.

Mae'r ymateb cadarnhaol i'r ymgynghoriad wedi annog y Cyngor a phartneriaid i ddatblygu cynigion ymhellach. Mae'r gwaith o baratoi cais cynllunio llawn wedi dechrau ar gyfer y ganolfan hamdden a lles gyda phyllau nofio, ystafell ffitrwydd a stiwdios, safle storio beiciau a chysylltedd teithio llesol, caffi, gardd do a gwell hygyrchedd i bob defnyddiwr.





Mae adleoli'r ganolfan hamdden yn paratoi'r ffordd ar gyfer cyfleuster newydd, modern ac addas i'r diben ar gyfer Coleg Gwent mewn lleoliad mwy hygyrch. Gellid lleoli tua 2,000 o fyfyrwyr ar y campws newydd. Ochr yn ochr â champws Prifysgol De Cymru, bydd y coleg addysg bellach newydd yn rhan o Gornel Gwybodaeth Casnewydd.

Bydd darparu cyfleuster hamdden ac addysg newydd yn creu adeiladau nodedig newydd yng nghanol y ddinas, gan arwain at fwy o ymwelwyr a chreu hyder yng Nghasnewydd. Bydd yn rhoi hwb i economi'r ddinas a'r rhanbarth ehangach, hybu iechyd a lles drwy annog pobl i ymgysylltu a dod yn fwy actif, gwella canlyniadau addysgol gan greu 'llwybrau dysgu' di-dor o addysg bellach i addysg uwch, cyfrannu at gydlyniant cymunedol drwy gyfleoedd diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd, gwella adnoddau cymunedol drwy ddarparu cyfleusterau newydd a modern a mynediad at ddysgu, a gwella seilwaith ffisegol canol dinas Casnewydd.

Pum Ffordd o Weithio

Bydd y cynigion hyn yn dod â buddion **hirdymor** sylweddol. Bydd buddsoddiad mewn cyfleusterau hamdden modern a'r Gornel Wybodaeth yn cyfrannu at adfywio canol y ddinas yn barhaus, hyrwyddo'r agenda iechyd a lles, a darparu cyfleusterau amgylcheddol gynaliadwy a hygyrch sydd wedi'u hintegreiddio'n dda â darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus. Byddai cyfleuster hamdden modern yng nghanol y ddinas yn cyfrannu'n fawr at adfywio, gan gefnogi twf economaidd a chreu swyddi ac yn cydbwyso'r cynnig yng nghanol y ddinas ar gyfer y dyfodol. Mae'r lleoliad arfaethedig yn ganolog ac yn hygyrch drwy drafnidiaeth gyhoeddus a llwybr teithio llesol, sy'n cyfrannu at ansawdd aer gwell a manteision iechyd. Gallai'r lleoliad canolog hefyd fod yn fwy hygyrch i bobl sy'n dibynnu ar ddefnyddio cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r cynigion yn cynnwys gweithio **cydweithredol** rhwng y Cyngor, Casnewydd Fyw a Choleg Gwent. Mae cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu wedi'i ddatblygu i sicrhau bod pobl leol yn **cymryd rhan** yn y gwaith o ddatblygu'r cynnig. Mae hyn wedi cynnwys ymgysylltu â defnyddwyr presennol Canolfan Casnewydd, trigolion o gymdogaethau cyfagos a grwpiau cydraddoldeb perthnasol. Bydd y cynigion yn **atal** colli cyfleusterau hamdden yng nghanol y ddinas gyda'r cyfleusterau presennol ar ddiwedd eu hoes. Bydd y cyfleuster hamdden newydd yn cael ei adeiladu i safonau rhagorol BREEAM (Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu), gyda chynaliadwyedd a diogelu at y dyfodol wrth ei wraidd. Ynghyd ag adeilad newydd Coleg Gwent, gwelliannau i Ffordd Brynbuga a'r cysylltedd teithio llesol, bydd hyn yn creu ysgyfaint gwyrdd cynaliadwy o ansawdd da, wrth ganol y ddinas, a fydd yn cyfrannu at les parhaus trigolion. Mae tystiolaeth yn dangos bod chwaraeon a hamdden yn dod â manteision iechyd ataliol, ac yn gallu gwella lles corfforol a meddyliol. Bydd y cynigion yn cyflawni manteision iechyd, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol **integredig** ac yn alinio amcanion yn y Cynllun Llesiant ag Uwchgynllun Canol y Ddinas.

Edrych Ymlaen at y Dyfodol

Y cam nesaf yw cyflwyno cais cynllunio llawn ar gyfer y cyfleuster hamdden newydd. Mae'r ymyriad Mannau Gwyrdd a Diogel hefyd yn anelu at gyd-fynd â phrosiect newydd y Ganolfan Hamdden ar lan yr afon, parthed y cynlluniau ar gyfer to gwyrdd, wal werdd, a phlannu brodorol.

Cynlluniau Ychwanegol ar gyfer y Dyfodol

Ochr yn ochr â chynlluniau adfywio parhaus, mae partneriaid yn adeiladu ar botensial digwyddiadau i gyfrannu at Gynnig Casnewydd. Mae'r Cyngor, gyda chefnogaeth partneriaid, wedi cyflwyno mynegiant o ddiddordeb i fod yn Ddinas Diwylliant yn 2025, gan gefnogi adfywio diwylliannol, hybu'r economi a rhoi cyfle sylweddol i godi proffil y ddinas. Mae buddsoddi yn yr amgylchfyd cyhoeddus yn flaenoriaeth allweddol gyda chynlluniau wedi'u datblygu ar gyfer y porth gogleddol i ganol y ddinas, gan hyrwyddo amgylchedd gwyrddach ac argraffiadau cryf a chadarnhaol o'r ddinas ar bwynt cyrraedd pwysig.

Mae gan bawb y sgiliau a'r cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i ddatblygu a ffynnu ac i gyfrannu at ddinas ffyniannus a chynaliadwy

Er mwyn dangos y cynnydd a wnaed yn erbyn yr amcan llesiant hwn yn ystod 2020-21 nodwyd nifer o astudiaethau achos. Mae pob astudiaeth achos / enghraifft yn cynnwys y manylion canlynol: disgrifiad byr; pa Ymyriad(au) a Nodau Llesiant y mae'n ymwneud â nhw; sut y defnyddiwyd y Pum Ffordd o Weithio; unrhyw fesurau perfformiad; a chynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Darganfod Gyrfaoedd Digidol – Digwyddiad Rhithwir i Ysgolion



Cafodd myfyrwyr Casnewydd gyfle i archwilio gyrfa yn y sector digidol - ac roedd y cyfan wedi'i wneud ar-lein. Gwahoddwyd myfyrwyr ym mlwyddyn naw ac uwch i gael gwybod am yr ystod o yrfaoedd digidol sydd ar gael iddynt ar garreg eu drws a'r sgiliau a'r cymwysterau sydd eu hangen arnynt i fod yn llwyddiannus ynddynt.

Cafodd y digwyddiad wythnos o hyd ei gyflwyno ar Microsoft Teams ac roedd yn canolbwyntio ar wahanol themâu bob dydd: seiberddiogelwch; peirianneg meddalwedd, lled-ddargludyddion, technoleg greadigol a thechnoleg y dyfodol a digidol. Roedd cymysgedd o sesiynau byw a gweminarau yn ystod yr wythnos. Yn dilyn y digwyddiad, gallai ysgolion parhau i gyrchu fideos ac adnoddau, gan gynnig adnodd cyfoethog iawn i bobl ifanc sy'n ystyried eu hopsiynau gyrfa a'u llwybrau. Dyma sampl o'r ugain cyflwyniad a gyflwynwyd yn ystod yr wythnos:

- Cyflwyniad i Beirianneg Meddalwedd gydag Admiral
- Sbotolau ar Gyflogwyr – Newport Wafer Fab
- Cymwysterau a Llwybrau mewn Diwydiannau Digidol Creadigol
- Cyfweliad gyda'r Tîm y tu ôl i Gemau Tiny Rebel
- Crynhoi Diwydiant Digidol Casnewydd gyda Phanel Arbenigol

Dewisom yrfaoedd digidol ar gyfer y digwyddiad oherwydd bod Casnewydd yn gartref i nifer o fusnesau llwyddiannus a rhai sy'n tyfu a rhagwelir y bydd y ddinas yn tyfu'n sylweddol dros y 10 mlynedd nesaf. Y nod oedd i ddisgyblion Casnewydd gael eu cyffroi gan yr hyn sydd gan eu dinas gartref i'w gynnig a chreu llwybr tuag at yrfa gysylltiedig gyda chefnogaeth ein hysgolion, ein colegau a'n busnesau.

Dangosodd cyflogwyr yn y sectorau yma yr hyn y mae eu cwmnïau'n ei wneud a'r swyddi y maent yn eu cynnig. Roedd bob dydd yn cynnwys sesiwn gyda chynghorwyr Gyrfa Cymru ar lwybrau i gyflogaeth yn y sectorau.

Roedd y cyflogwyr a'r sefydliadau a gymerodd ran yn cynnwys: IQE; Newport Wafer Fab; SPTS; Wolfberry; Bright Branch; Third Space; Academi Feddalwedd Genedlaethol Prifysgol Caerdydd; Cyber Wales; Seiber Diogelwch PDC; Roboteg PDC; Coleg Gwent Gaming; Tarian; Urban Myth; a CEMET AI & Virtual Reality. Roedd cyflogwyr a gymerodd ran yn awyddus i gael y cyfle i ymgysylltu â phobl ifanc a bod yn rhan o ddigwyddiad a allai gefnogi datblygu sgiliau a pharatoi'r ffordd ar gyfer recriwtio talent leol i'w busnesau.

Y Pum Ffordd o Weithio

Roedd y digwyddiad wythnos o hyd wedi'i anelu at Flynyddoedd 9 ac uwch a'i gyflwyno ar adeg pan fyddent yn ystyried eu hopsiynau pwnc a'u dewisiadau gyrfa posibl yn y dyfodol, gan helpu pobl ifanc yn y ddinas i ffynnu'n economaidd a chyflawni eu potensial yn yr **hirdymor**. Mae'r sector digidol yn sector allweddol ar gyfer Casnewydd a de-ddwyrain Cymru sy'n cynnig twf hirdymor. Roedd y digwyddiad yn ceisio **atal** diffyg ymwybyddiaeth ymhlith pobl ifanc o'r cyfleoedd cyflogaeth a gyrfa medrus iawn ar garreg eu drws, ac i atal anawsterau recriwtio / prinder sgiliau o fewn sector twf economaidd allweddol ar gyfer y ddinas. Roedd y digwyddiad yn **gydweithrediad** rhwng cyflogwyr, darparwyr addysg a hyfforddiant (Coleg Gwent, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Caerdydd), Gyrfa Cymru a Chyngor Dinas Casnewydd er budd myfyrwyr yn ysgolion Casnewydd. Roedd y gweithgaredd yn cyflawni dau Amcan 1 a 2 o'r Cynllun Llesiant. Mae'r prosiect yn **integredig** â'r Strategaeth Twf Economaidd ar gyfer y Ddinas a'r sectorau allweddol a nodwyd gan Bartneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Roedd yr ysgolion yn cymryd rhan ac yn ymgynghori ar ddiben a fformat y digwyddiad; anogwyd myfyrwyr i ofyn cwestiynau am y pethau yr oeddent wir am wybod amdanynt gan gyflogwyr. Bydd adborth gan ysgolion yn llywio digwyddiadau gyrfaoedd sy'n canolbwyntio ar y sector yn y dyfodol ar gyfer ysgolion, y bwriadwn nawr eu cyflawni o ganlyniad i lwyddiant y peilot hwn.

Edrych Ymlaen at y Dyfodol

Yn dilyn llwyddiant y digwyddiad hwn a'r galw dilynol gan ysgolion byddwn yn darparu rhagor o ddigwyddiadau gyrfaoedd yn y sector ar-lein ar gyfer myfyrwyr y ddinas sy'n gysylltiedig â sectorau twf allweddol.

Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid





Mae'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (FfYDI) ar gyfer pawb sy'n gweithio gyda phobl ifanc ac yn eu cefnogi i ymgysylltu a gwneud cynnydd mewn addysg, hyfforddiant a gwaith. Mae'r Fframwaith hwn yn canolbwyntio ar leihau nifer y bobl ifanc 11 i 25 oed nad ydynt yn ymwneud ag addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Mae chwe elfen i'r Fframwaith hwn:

- Adnabod y bobl ifanc sydd fwyaf mewn perygl o ddatgysylltu.
- Brocera a chydlynu cymorth yn well.
- Tracio a phontio pobl ifanc yn well trwy'r system.
- Sicrhau bod y gwasanaeth yn diwallu anghenion pobl ifanc.
- Gwella sgiliau cyflogadwyedd a chyfleoedd gwaith.
- Rhagor o atebolrwydd dros ganlyniadau gwell i bobl ifanc.

Mae'r agenda NEET wedi bod yn strategaeth hirdymor i Gyngor Dinas Caerdydd a'i bartneriaid sydd wedi gweld nifer y bobl ifanc nad ydynt yn ymwneud ag addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn gostwng yn sylweddol dros y blynyddoedd, o fod â'r nifer uchaf o bobl ifanc nad ydynt yn ymwneud ag addysg, cyflogaeth na hyfforddiant i fod yn is na chyfartaledd Cymru gyfan.

Mae'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid wedi parhau i gael ei gefnogi gan yr holl bartneriaid allweddol. Mae'r Fframwaith yn cael ei ddwyn i gyfrif yn gryf gan y Bwrdd Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid strategol (BGCI). Y grŵp NEET Cyn-16, y grŵp ymarferwyr 16-18 a'r Rhwydwaith Darparwyr Dysgu yw'r gweithgorau sy'n cefnogi'r BGCI yn weithredol ac sy'n cael effaith effeithiol ar leihau'r ffigur NEET.

Y Pum Ffordd o Weithio

Mae'r FfYPI ar waith i atal pobl ifanc rhag dod yn NEET yn y tymor byr a'r **hirdymor**. Mae'r FfYPI yn ceisio sicrhau bod pobl ifanc yn gallu dod o hyd i addysg, cyflogaeth a hyfforddiant a chyflawni eu potensial. Mae llesiant dysgwyr yn hollbwysig a chynigir gwasanaethau ychwanegol a Gweithiwr Arweiniol i ddysgwyr sy'n agored i niwed. Drwy'r FfYPI defnyddir pecyn cymorth Adnabod Cynnar i wneud asesiad CMG ar bob dysgwr ysgol uwchradd. Mae'r pecyn cymorth hwn ynghyd â gwybodaeth ymarferwyr yn adnabod pob dysgwr sydd mewn perygl neu sydd angen cymorth ychwanegol. Cynhelir cyfarfodydd pontio ar gyfer y rhai sy'n gadael yr ysgol (Blwyddyn 11, 12 a 13) cyn iddyn nhw adael er mwyn sicrhau bod llwybrau dilyniant ar waith sy'n eu **hatal** rhag mynd yn NEET. Mae'r FfYPI yn gysylltiedig â gwaith ledled Cymru a gydlynir drwy Lywodraeth Cymru a WEFO. Mae'n **integredig** â phrosiectau Sgiliau Cywir eraill a Chynllun Corfforaethol CDC. Mae hwn yn ddull cwbl **gydweithredol** sy'n cynnwys partneriaid BGC gan gynnwys Cyngor Dinas Casnewydd, Llywodraeth Cymru a Choleg Gwent. Mae aelodaeth ehangach y bartneriaeth yn cynnwys Gyrfa Cymru, FfHCC a phob ysgol uwchradd ledled Casnewydd. Yr allwedd i weithredu'r fframwaith yn llwyddiannus fu dull system gyfan lle caiff rolau a chyfrifoldebau eu diffinio'n gliriach a lle mae'r holl wasanaethau a darparwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc yn cydweithio i sicrhau gwell canlyniadau i bobl ifanc. Rhoddir adborth gan ddysgwyr drwy ein cydweithrediadau. Mae hyn yn **cynnwys** hyfforddwyr dysgu yn yr ysgol, dysgwyr amgen cyn-16 a chydweithio rhwng myfyrwyr chweched dosbarth. Gwneir argymhellion gan y bobl ifanc i weithgorau ac mae'r Cydgysylltydd FfYPI yn dilyn hyn.

Mesurau Perfformiad

Mesur Perfformiad	**Blwyddyn**				
	2016	**2017**	**2018**	**2019**	**2020**
Canran dysgwyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET)	1.7%	1.3%	1.1%	0.9%	1.4% (cyfartaledd Cymru – 1.7%)
Canran dysgwyr Blwyddyn 13 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET)	2.44%	1.52%	1.65%	1.8%	1.1% (cyfartaledd Cymru – 3.5%)
Canran y bobl ifanc 16-18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)	3.44%	2.75%	2.65%	2.6%	2.6%

Edrych Ymlaen at y Dyfodol

Mae'r gwaith FfYPI wedi parhau i fynd rhagddo er gwaethaf effaith Covid-19. Mae'r arfer cryf sydd wedi'i sefydlu'n dda wedi darparu sail gref ar gyfer datblygu dulliau diwygiedig. Mae ffyrdd newydd o weithio wedi'u cyflwyno, gan sicrhau bod yr agenda'n parhau i fod yn flaenoriaeth i bob partner. Bydd y Grant Cymorth Ieuenctid yn parhau i ariannu'r gwaith hwn yn 2021/2022. Caiff hyn ei fonitro drwy Adfywio, Buddsoddi a Thai (ABT) ac Addysg yng Nghyngor Dinas Casnewydd gyda phwyslais arbennig ar y Bwrdd Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid strategol.

Prosiect Ffilm Cymru a Chasnewydd yn Un; hyrwyddo gyrfaoedd yn y diwydiant ffilm a theledu i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol





Ar gyfer y prosiect hwn, gweithiodd y BGC gyda Ffilm Cymru i gyflwyno Dosbarth Meistr i bobl ifanc yng Nghasnewydd ar swyddi a chyfleoedd gyrfaoedd yn y sector sgrin. Mae'r rolau'n cynnwys rhedwr, neu rôl criw ar lefel mynediad a chynhyrchu. Roedd y rhai a oedd yn bresennol yn awyddus i ddysgu am lawer o feysydd gwaith, megis gwallt a cholur, hyfforddeion camera, adran gelf, technegydd sain a cherddoriaeth, cynorthwywyr lleoliad.

Mae'r sector yn un o dwf sylweddol ac yn llwyddiant yng Nghymru. Nododd adroddiad Senedd Cymru ym mis Mai 2019 o'r enw 'Ymchwiliad i Gynyrchiadau Ffilm a Theledu Mawr yng Nghymru' y canlynol:

"Ers 1999, mae GYC o gynhyrchu ffilmiau, fideos a rhaglenni teledu yng Nghymru wedi cynyddu o £59 miliwn i £187 miliwn yn 2016. Mae hyn yn gynnydd o 217%. Yn y DU gyfan, mae GYC yn y maes hwn wedi cynyddu o £5.15 biliwn ym 1999 i £9.49 biliwn yn 2016. Mae hyn yn gynnydd o 84%.

Fodd bynnag, yn gynyddol mae galwadau i awgrymu bod angen gwneud mwy i gynyddu amrywiaeth o fewn y diwydiant. Fel yr amlinellwyd gan Diverse Cymru, a gomisiynwyd gan Sector Diwydiannau Creadigol Llywodraeth Cymru i edrych ar y mater:

"Er gwaethaf tirwedd ddiwylliannol gyfoethog Cymru, mae ein diwydiannau Ffilm a Theledu yn dioddef o ddiffyg amrywiaeth ar draws rhyw, anabledd, rhywioldeb, oedran a chefndiroedd economaidd-gymdeithasol ym mhob sector, o arlwyo, gwisgoedd a gwisgo set i ysgrifennu, golygu a chyfarwyddo."



Roedd y prosiect peilot yn gam cychwynnol tuag at fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb hwnnw'n lleol drwy hyrwyddo gyrfaoedd o fewn y diwydiant ffilm i grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli ynddo ar hyn o bryd. Mae'r prosiect yn defnyddio strwythur y BGC i ddod â phartneriaid allweddol at ei gilydd, gan ddefnyddio eu sgiliau a'u mewnwelediadau i gyflawni'r nodau a rennir sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Llesiant y ddinas.

Fel trosolwg, roedd y sesiynau dosbarth meistr yn cynnwys: Cyflwyniadau i amrywiaeth o rolau swyddi, beth yw'r realiti yng Nghymru ar gyfer cyfleoedd lefel mynediad, sut i wneud cais am swyddi o fewn y diwydiant, cyflwyniad i bropiau, gwaith camera, adran gelf, sesiwn Holi ac Ateb gyda 'Screen Alliance Wales' a 'Sgil Cymru'.

Dyfyniadau o'r Sesiynau Dosbarth Meistr:

"Ashley – rwy'n deall nawr am y rolau amrywiol, a pha mor hygyrch y gall rhai fod. Gall fod yn bryder os nad yw fy nghorff yn 'gweithio', ond yn sylweddoli bod cyfle ar gael, yn enwedig mewn adran gelfyddydol a allai ganiatáu hyblygrwydd a gweithio gartref er enghraifft".

"Genevieve – rwy'n benderfynol o weithio gyda cherddoriaeth a sain, fy mywyd i a phopeth yw e i fi. Bydda' i'n yn ymchwilio mwy ac yn gwella fy ngwybodaeth am fathau o rolau a'r sector yn ehangach".

"Timothy - roeddwn i wastad yn meddwl bod y diwydiant yn rhy gystadleuol. Rwy'n gweld nawr ei fod yn opsiwn, byddaf yn parhau i edrych a dysgu ar feddalwedd a phethau y gallaf eu dysgu gartref. Byddaf yn cysylltu'n uniongyrchol â rhai o'r bobl wnaethon ni gyfarfod â nhw a hefyd ag asiantaethau i chwilio am unrhyw gyfleoedd i weithio".

"Katy - Gwych y gallaf gael profiad yn y swydd, rwy'n bendant yn mynd i wneud cais am wahanol rolau nawr fy mod yn gweld. Rwy'n mynd i wneud mwy o ymchwil a gwneud cais ar ôl cais! Rwyf am fanteisio ar fwy o gyfleoedd hyfforddi nes i mi ddod o hyd i waith".

"Rohan – Rydw i wedi dysgu llawer iawn am sut i gyfathrebu'n effeithiol ar-lein a theimlo'n llai nerfus am y peth".

Y Pum Ffordd o Weithio

Mae'r prosiect yn ymwneud â chyfleoedd gyrfa o fewn sector a nodwyd fel un a fydd yn debygol o brofi twf pellach yn y blynyddoedd i ddod. Roedd yn cefnogi pobl ifanc i gael gwybod am yrfaoedd ac ennill mynediad i'r sectorau Ffilm a Theledu, a allai gefnogi eu llesiant economaidd a chyflawni eu potensial gyda buddion **hirdymor**. Nod y prosiect yw chwarae rôl fach **ataliol** o ran cynyddu amrywiaeth o fewn diwydiant sy'n tyfu. Mae'r prosiect yn **integreiddio** nifer o themâu, yn enwedig y rhai a geir yn ffrwd cydlyniant cymunedol Llywodraeth Cymru a'r sectorau blaenoriaeth allweddol a nodwyd gan Bartneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae'r prosiect hwn yn dwyn ynghyd nifer o bartneriaid o fewn y BGC a phartneriaeth ehangach. Roedd Ffilm Cymru yn bartner annatod yn y prosiect, gan ddangos dull **cydweithredol** ar draws sectorau ar gyfer y prosiect.

Edrych Ymlaen at y Dyfodol

Dangosodd y prosiect peilot botensial mawr i gefnogi pobl ifanc i gael gwaith, ehangu eu sgiliau a'u profiad a mynd i'r afael ag anghenion sgiliau'r sector ffilm a theledu yn ne Cymru. Datblygodd Ffilm Cymru gais am gyllid aml-bartner i gronfa Adnewyddu Cymunedol Llywodraeth y DU i uwchraddio'r prosiect hwn yn sylweddol i brosiect chwe mis mawr yn y ddinas.

Mae cynlluniau parhaus i olrhain canlyniadau a llwyddiannau'r cyfranogwyr yn barhaus. Maent hefyd yn rhan o grŵp Facebook fel y gallant rannu swyddi a chymorth ymgeisio.

Project Ailgychwyn Reach



Mae'r prosiect hwn yn cefnogi ffoaduriaid, ceiswyr lloches a mudwyr i oresgyn rhwystrau o ran yr iaith Saesneg a rhwystrau posibl eraill i integreiddio yn y ddinas. Ers dechrau'r prosiect yn 2019, rydym wedi adeiladu rhwydwaith cryf o bartneriaid i gael atgyfeiriadau ar gyfer y prosiect. Rydym hefyd wedi cyfeirio cyfranogwyr at gymorth perthnasol ac wedi cynnig cyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

Oherwydd paramedrau'r prosiect ar lefel Cymru gyfan, mae rhywfaint o'r gwaith yn cefnogi ffoaduriaid yn unig, ac mae cymorth i ddysgu Saesneg ar gael i bob mudwr sydd â rhwystr iaith. Rydym yn cynnig asesiadau cyfannol i ffoaduriaid. Mae'r rhain yn asesiadau sy'n nodi rhwystrau i integreiddio a chymorth dilynol i ddileu'r rhwystrau hyn. Nodir unrhyw faterion yn ymwneud â sgiliau yn y Saesneg drwy asesiadau Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) ac rydym yn cynnal dosbarthiadau i helpu'r cyfranogwr i ddysgu Saesneg.

Drwy ein hasesiadau, rydym wedi nodi rhwystrau sy'n cynnwys tai, cyllid a dyled, mynediad at fudd-daliadau, diffyg addysg a hyfforddiant perthnasol ac iechyd a llesiant gwael. Drwy gymryd camau i ddileu'r rhwystrau, gallwn helpu i baratoi ffoaduriaid i ymgartrefu yng Nghasnewydd a chyfrannu at eu cymunedau a'r economi.

Mae'r prosiect yn helpu i sicrhau cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy i gyfranogwyr, gan dargedu sectorau twf a bylchau mewn sgiliau, a chymhwyso cymwysterau o'u gwledydd gwreiddiol fel eu bod yn cael eu cydnabod yn y DU. Pan yn derbyn cymorth gan brosiect Reach / AilGychwyn, cyfeirir cyfranogwyr hefyd at raglenni priodol eraill fel Siwrnai i Waith, Ysbrydoli i Weithio, Cymunedau dros Waith a Chymunedau ar gyfer Gwaith a Mwy a all arwain at lwybrau cyflogaeth, rhaglenni hyfforddi, a chyfleoedd gwirfoddoli/lleoli yn lleol.

Fel arfer, darperir Reach / AilGychwyn o Lyfrgell Ganolog Casnewydd lle mae gennym Ganolfan bwrpasol, ond effeithiwyd ar hyn gan Covid-19 eleni. Fodd bynnag, cynhaliwyd cyswllt â ffoaduriaid drwy ddarparu offer TG gan gynnwys llechi cyfrifiadurol a donglau Wi-Fi fel y gallant barhau i ddysgu ESOL, rhyngweithio â staff y prosiect a chwblhau cyfleoedd dysgu eraill sy'n anelu at gefnogi'r unigolyn i gael gwaith.

Rydym yn derbyn y rhan fwyaf o atgyfeiriadau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ond daw rhai gan ein partneriaid hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyngor Ffoaduriaid Cymru
- Y Groes Goch Brydeinig
- Canolfan Share
- Canolfan Gap
- Project Adleoli Pobl Agored i Niwed CDC
- Project y Goleudy
- Hybiau CDC gan gynnwys y tîm digartrefedd
- Dewisiadau Cartref
- BAWSO

Y Pum Ffordd o Weithio

Mae darpariaeth y prosiect yn seiliedig ar helpu mudwyr i ymgartrefu yn y DU drwy eu cefnogi i weithio a chyfrannu at eu cymuned leol. Drwy ddileu rhwystrau i integreiddio, cynnig cyngor, cynnig cymorth gyda Saesneg, cyngor ar gyflogaeth a hyfforddiant/addysg, arweiniad a chefnogaeth, nod y prosiect yw sicrhau eu bod yn ddigon diogel a sefydlog i gynnal cyflogaeth yn yr **hirdymor**. Nod y prosiect yw mynd i'r afael â'r llu o rwystrau sy'n **atal** mudwyr rhag ymgartrefu yn y DU. Mae'r rhain yn cynnwys:

- atal tlodi drwy gynnig cymorth gyda materion ariannol, gan gynnwys cyngor ar fudd-daliadau a chymorth cyflogadwyedd;
- atal digartrefedd drwy roi cyngor ar dai, a chymorth;
- atal problemau iechyd a llesiant drwy helpu mudwyr i gofrestru gyda meddygon, deintyddion, gwasanaethau cymdeithasol a thimau ymyrraeth deuluol;
- atal methiant i integreiddio drwy gynnig asesiadau iaith;
- atal unigedd cymdeithasol drwy gynnig cyngor am y grwpiau cymorth lleol a'r gweithgareddau sydd ar gael yn eu hardal leol.

Mesurau Perfformiad	Targed	Canlyniad
Unigolion a gafodd gymorth cyflogadwyedd	66	82
Asesiad Saesneg fel Iaith Ychwanegol (ESOL)	130	136

Braenaru'r Blynyddoedd Cynnar





Mae Rhaglen Trawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar Casnewydd (Braenaru) a Chymuned Dysgu Cynnar Betws yn ddwy raglen nodedig iawn, sy'n ategu ei gilydd er budd anghenion teuluoedd yn y Betws gyda phlant dan 8 oed. Maent yn canolbwyntio'n gryf ar waith cymorth ac atal ar gyfer teuluoedd a thrwy fabwysiadu dull integredig, cymunedol cyfan, eu nod yw creu newid parhaol a hirdymor.

Nodau Braenaru	**Cymuned Dysgu Cynnar y Betws**
Gweithio mewn partneriaeth ar lefel system i: • Ddarparu gwasanaethau'r Blynyddoedd Cynnar mewn ffordd gydgysylltiedig, integredig ac amserol. • Ail-ffurfweddu gwasanaethau'r Blynyddoedd Cynnar sy'n canolbwyntio ar gynllunio, comisiynu, nodi a mynd i'r afael ag anghenion. • Nodi cyfleoedd a rhwystrau pellach i integreiddio a ffyrdd o'u dileu, eu lleihau neu eu rhesymoli; a gweithio'n fwy ataliol.	Cymryd dull integredig system gyfan o wella canlyniadau'r blynyddoedd cynnar gan ganolbwyntio ar: • Llesiant a gwydnwch. • Tlodi digidol – yn enwedig cysylltedd • Pontio llwyddiannus – yn enwedig Dechrau'n Deg i'r ysgol. • Mannau chwarae a mannau chwarae diogel – gan ddefnyddio'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae fel sbardun ar gyfer hyn.

<u>Sut maen nhw'n cysylltu?</u>



Mae aelodau'r tîm braenaru wedi'u hintegreiddio â llywodraethiant Cymuned Dysgu Cynnar y Betws, ar lefel tîm prosiect a bwrdd strategol. Mae'r fforymau hyn yn galluogi'r ddau brosiect arbennig i gysylltu ac ategu ei gilydd i helpu i ddarparu cymunedau gwydn cryf. Yn fyr, mae Cymuned Dysgu Cynnar y Betws yn ceisio cynorthwyo teuluoedd drwy ddarparu cymuned a system ehangach iach lle gallan nhw ffynnu ar ôl neu ochr yn ochr â'r ymyriadau a ddarperir gan Braenaru.

Y Pum Ffordd o Weithio

Mae'r ddau brosiect o natur **ataliol** ac yn darparu ar gyfer gwelliannau **hirdymor** o ran llesiant unigolion, teuluoedd a chymunedau drwy ganolbwyntio ymyriadau ar blant yn eu blynyddoedd cynnar. Maent hefyd yn anelu at gryfhau teuluoedd, strwythurau cymorth a chymunedau a ddylai **atal** yr angen am ymyrraeth statudol. Mae'r rhaglen Cymuned Dysgu Cynnar y Betws yn ddull **integredig**, system cyfan o greu amgylchedd llesiant o amgylch plant blynyddoedd cynnar sy'n ceisio **cynnwys** pobl leol ac adeiladu eu cyfalaf cymdeithasol. Mae'r ddwy raglen yn enghreifftiau cryf o **gydweithio** ymarferol drwy weithio amlasiantaethol ac amlddisgyblaethol. Daeth Braenaru â'r holl wasanaethau allweddol at ei gilydd yn fwriadol sy'n cyffwrdd â bywydau plant a theuluoedd blynyddoedd cynnar fel y gallai eu hailddylunio i weithio'n well gyda'i gilydd a datblygu gwasanaethau'n gydgynhyrchiol.

Mesurau Perfformiad

Gan fod Braenaru yn gynllun peilot ar gyfer newid systemau, nid oes unrhyw fesurau perfformiad fel y cyfryw, ond yr amcanion allweddol yw:

- Datblygu grŵp gweithredol a Chylch Gorchwyl
- Sefydlu tîm craidd a chanolfan ar gyfer cynllun peilot Betws
- Treialu ffordd newydd o weithio gyda Mamau beichiog a genedigaethau newydd ym Metws gyda phob Teulu, gan ganolbwyntio ar:
  - Drafodaethau 'Beth sy'n Bwysig'
  - Gweithredu dull gweithiwr allweddol gan ei ddilyn gyda thechneg ac yna'r dechneg ‘powlen pysgodyn’
  - Cymorth gwell gan fydwraig
  - Sefydlu ymyrraeth gynnar briodol gan ddefnyddio'r tîm estynedig ym Metws
- Recriwtio bydwraig ac ymarferydd iechyd meddwl ar ôl-droed rhanbarthol a gweithiwr ymyrraeth deuluol ar lefel leol.

Edrych Ymlaen at y Dyfodol

Bwriad Braenaru yn y Betws yw ffurfio model ar gyfer gweithio cydgysylltiedig sy'n canolbwyntio ar y teulu yn ehangach yng Nghasnewydd ac ar draws Rhanbarth Gwent gyda'r broses gyflwyno yn dechrau yn hydref 2021.

Cynlluniau Ychwanegol ar gyfer y Dyfodol

Yn seiliedig ar lwyddiant y digwyddiad gyrfaoedd digidol ar-lein i ysgolion, mae'r ymyriad Sgiliau Cywir yn cynllunio mentrau pellach yn y sector sy'n dwyn ynghyd gyflogwyr ac ysgolion, gan arddangos i fyfyrwyr y cyfleoedd gyrfa sydd ar gael iddynt yn lleol a'r llwybrau addysgol a hyfforddiant i'w cyrraedd. Mae ysgolion wedi dweud eu bod yn croesawu'r dull ar-lein newydd hwn, gan ddarparu adnodd gyrfaoedd gwell wedyn.

Mae'r ymyriad Sgiliau Cywir yn ehangu ei ffocws y tu hwnt i lesiant economaidd i lesiant amgylcheddol a chymdeithasol.

Gwirfoddoli Gwyrdd

Mae'r ymyriad Mannau Gwyrdd a Diogel wedi casglu cyfleoedd gwirfoddoli gwyrdd hysbys ledled Casnewydd ac mae'n eu hyrwyddo'n ad hoc. Y nod dros y flwyddyn nesaf yw defnyddio dull mwy strwythuredig o hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli gwyrdd yn ehangach, ar draws llwyfannau, ac ar draws y Rhwydwaith Gwyrdd a Diogel, i feithrin cysylltiadau pobl â natur, ennill sgiliau awyr agored newydd, a ffyrdd ymarferol y gall pobl gymryd rhan.

Mae pawb yn perthyn i gymunedau gwydn, cyfeillgar a chysylltiedig ac yn teimlo'n hyderus ac wedi'u grymuso i wella eu lles

Er mwyn dangos y cynnydd a wnaed yn erbyn yr amcan llesiant hwn yn ystod 2020-21, nodwyd nifer o astudiaethau achos. Mae pob astudiaeth achos/enghraifft yn cynnwys y manylion canlynol: disgrifiad byr; pa Ymyriad(au) a Nodau Lles y mae'n ymwneud â nhw; sut y defnyddiwyd y Pum Ffordd o Weithio; unrhyw fesurau perfformiad; a chynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Gardd Gymunedol Lysaght Cam 2





Ar ôl derbyn swm bach o arian gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod gaeaf 2020, prynwyd sawl elfen werdd ychwanegol i wella mynediad i'r ardd, annog mwy o gyfranogiad lleol a gwella'r lle ar gyfer bywyd gwyllt lleol. Roedd y grŵp garddio cymunedol wrth ei fodd o gael gwelyau uchel newydd, uwchbridd, hadau pabïau, a gwrychoedd brodorol ychwanegol. Gosododd Linc Cymru hefyd dap allanol i ategu eu casgenni dŵr presennol, sydd wedi bod yn llwyddiant ysgubol ac a ddisgrifiwyd fel '*bendith*' gan denantiaid.

Mae'r grŵp wedi ehangu'r amrywiaeth o ffrwythau a llysiau y maent yn eu tyfu eleni ac mae'r ddôl beillwyr yn edrych yn iach ac yn hapus ac mae cannoedd o egin babïau a oedd wedi'u gwasgaru o amgylch yr heneb yn dechrau gwthio drwodd.

Mae'r ffensys newydd a ariannwyd gan Linc hefyd yn creu lle diogel hyfryd y mae'r tenantiaid bellach yn ei alw'n 'eu gardd gyfrinachol' ac maent yn edrych ymlaen yn fawr at drefnu'r diwrnod cymunedol nesaf lle bydd pobl yn cael eu gwahodd i 'ddewis eu cynnyrch eu hunain' a derbyn bag nwyddau gan gynnwys rysáit. Mae'r grŵp yn awyddus iawn i annog defnydd rhwng cenedlaethau o'r Ardd Gymunedol.

Dywedodd Caroline:

"Rydym yn gobeithio annog defnydd rhwng cenedlaethau o'n Gardd Gymunedol, ein gweledigaeth yw iddi fod yn lle i bawb ddod at ei gilydd i ddysgu oddi wrth ei gilydd, i rannu sgiliau a gwybodaeth garddio, chwalu rhwystrau rhwng grwpiau oedran a meithrin cyfeillgarwch newydd. Rydym yn arbennig o awyddus i gynnwys pobl ifanc yn eu harddegau, eu cyflwyno i arddio a'u harwain oddi wrth Ymddygiad Gwrthgymdeithasol lleol, efallai trwy raglen fentora, gan eu paru ag aelod hŷn o'r gymuned gyda phwyslais ar urddas a pharch at ei gilydd."

Y Pum Ffordd o Weithio

Mae grŵp cymunedol brwdfrydig yn cynnal yr ardd, gyda chymorth Linc a rheolwr Sefydliad Lysaght, ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i archwilio a rhannu cyfleoedd ariannu cynaliadwy **tymor hwy**. Mae'r grŵp yn ceisio cynnwys mwy o bobl fel ffordd **ataliol** o leihau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, a gwella lles corfforol a meddyliol pobl, trwy fod yn egnïol, tyfu bwyd, ac annog bwyta'n iach o ffrwythau a llysiau ffres. Mae amcanion lles yr holl sefydliadau partner a grwpiau cymunedol sy'n rhan o hyn yn **integredig**. Yn yr ystyr hwn, mae'r ardd hefyd yn cyfrannu at amcan 4 y Cynllun Lles trwy wella bioamrywiaeth a chreu ecosystem leol fwy gwydn. Roedd hwn yn **waith ar y cyd** rhwng trigolion y gymuned leol, Grŵp Cyfeillion Lysaght, Linc Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Cadwch Gymru'n Daclus a Bug Life ar y dechrau. Sefydlwyd y grŵp cymunedol yn 2018 gyda chymorth Cymdeithas Tai Linc. Mae trigolion lleol wedi gwirfoddoli i ffurfio grŵp Gardd Gymunedol Lysaght i gynnal a chadw'r ardd a threfnu digwyddiadau cymunedol, a thrwy eu **cyfranogiad** wedi sbarduno'r gwelliannau i fannau gwyrdd a thwf yr ardd. Mae'n lle diogel hygyrch lleol i drigolion sy'n galluogi creu cyfeillgarwch newydd a helpu i greu ymdeimlad o berthyn, balchder yn yr ardal leol ac ymdeimlad o gyflawniad trwy lwyddo i ennill statws y faner werdd.

Mesurau Perfformiad

Ceisiadau llwyddiannus am faner werdd gymunedol erbyn 2023.

Prosiectau'r Rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diogel sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd.

Grwpiau cymunedol sy'n rhan o'r Rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diogel.

*Bydd mesurau perfformiad Mannau Gwyrdd a Diogel yn cael eu hadnewyddu erbyn diwedd 2021, yn dilyn y Weledigaeth, y Camau a'r Camau Gweithredu newydd a phenodol.

Edrych Ymlaen at y Dyfodol

Mae'r grŵp wedi gwneud cais am Wobr Baner Werdd Gymunedol am flwyddyn arall. Mae'r grŵp yn bwriadu gwahodd mwy o bobl i gymryd rhan ac elwa ar y cynnyrch a dyfir yn y gerddi, gan gynnwys annog defnydd rhwng cenedlaethau o'r Ardd Gymunedol.

Llwybrau Lles Coetiroedd



Llwyddodd Llwybrau Lles Coetiroedd i dderbyn cyllid gan Raglen Creu Eich Lle y Loteri Fawr. Duffryn Community Link yw'r sefydliad arweiniol sy'n gweithio gyda Cadwch Gymru'n Daclus, Growing Space a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i greu'r bartneriaeth gyflawni.

Mae'r prosiect hwn er budd pobl o bob oed o gymuned Dyffryn, Casnewydd, Gwent a'r cyffiniau gan gynnig cyfleoedd i wella cyflogadwyedd, ennill sgiliau, manteisio ar hyfforddiant achrededig, gwella'r amgylchedd, a gwella lles meddyliol a chorfforol pobl.

Mae'r prosiect newydd gwblhau ei 4edd flwyddyn gyda 3 blynedd ar ôl o hyd. Dyma grynodeb o'r holl weithgarwch:

Sesiynau Chwarae

- Mae sesiynau chwarae wedi bod yn rhedeg yn dda ac mae'r tîm yn cyflwyno 4 sesiwn yr wythnos: un ar dir Ysgol Gynradd Parc Tredegar (ond yn agored i ysgolion eraill), 2 yng Nghoetir Rabbit Hill (1 mynediad agored ac 1 wedi'i archebu ar gyfer sesiwn dawelach) ac 1 Sesiwn Sadwrn ym Mharcdir Tŷ Tredegar.
- Mae aelod o'r tîm chwarae wedi bod yn cyflwyno sesiynau gyda phlant oedran derbyn yn Ysgol Gynradd Parc Tredegar gan weithio ar eu sgiliau echddygol gros, a fydd yn parhau i'r flwyddyn ysgol nesaf.
- Mae'r tîm chwarae yn cymryd rhan yn nigwyddiad Haf o Chwarae Tŷ Tredegar lle byddant yn darparu gweithgareddau chwarae am 2 ddiwrnod.

Rhyfelwyr Coetir

- Cwblhawyd sesiynau Rhyfelwyr Coetir gyda blynyddoedd 3, 4 a 5 yn Ysgol Gynradd Parc Tredegar. Mae pob dosbarth wedi cael 3 sesiwn gyda phob un gan gynnwys sesiwn ddadelfennu lle roeddent yn chwilio trwy wahanol sbwriel a geir yn yr ardal, sesiwn crefft coed lle i wneud gemwaith/nadroedd a hudlathau o goed ysgawen a sesiwn tân a s'mores.

- O fis Medi ymlaen y nod yw annog plant o flwyddyn 5 a 6 i wneud cais am Ryfelwyr Coetir a fydd yn sesiynau bob pythefnos neu 12 o blant o'r grwpiau blwyddyn hyn. Byddant yn helpu i gynllunio'r newidiadau o fewn y coed, gwneud gwaith plannu, sesiynau crefft a sesiynau yn y golchdy. Y nod yw i'r plant helpu i lunio'r sesiynau ar yr hyn y maent am ei wneud a chreu ymdeimlad o berchnogaeth dros y coed.

Ymgyrch Lanhau Fawr y Gwanwyn Cadwch Gymru'n Daclus

- Daeth yr AS lleol a Chartrefi Dinas Casnewydd i roi help llaw, ynghyd â grŵp o glwb gwyliau gofal plant Cyswllt Cymunedol Dyffryn a grŵp o raglen Fit & Fed y Clwb Ieuenctid. Y nod yw ailadrodd y sesiynau casglu sbwriel gyda'r grwpiau hyn bob mis ac annog mwy o bobl yn y gymuned i gymryd rhan.

Cadwch Gymru'n Daclus – Adfywio Coetiroedd

- Mae'r sesiynau'n mynd yn dda iawn, ac mae grŵp cyson yn mynychu bob wythnos.
- Mae hyfforddiant yn yr arfaeth ar gyfer torri ac asglodi prysglwyni.
- Mae cylch boncyffion newydd wedi'i ychwanegu, mae grisiau newydd wedi'u creu gyda chynlluniau i wneud rhagor, ac mae gwaith wedi'i wneud i reoli'r llwybrau trwy'r coed.
- Cynhaliwyd arolwg coed a phlanhigion yn y coetir i ddarganfod pa blanhigion brodorol sydd ynddo.
- Mae llawryf ymledol yn cael ei symud yn barhaus.

Y Golchdy – Growing Space

- Mae'r prosiect hwn yn mynd yn dda iawn, ac mae'r golchdy yn edrych yn anhygoel gyda llwyth o ffrwythau a llysiau'n tyfu rhwng planhigion cydfuddiannol.
- Roedd 'Helfa Chwilod' yn y golchdy ac mae cynlluniau ar waith i greu hysbysfwrdd a fydd yn rhestru'r fioamrywiaeth sydd ar gael a gall pobl ychwanegu at yr hysbysfwrdd os gwelant unrhyw beth arall.
- Mae cais yn cael ei wneud i ennill Gwobr y Faner Werdd ar gyfer yr ardal.
- Ceir ymgysylltu da ond yn dal i weithio i ymgysylltu â'r rhai yn ardal Dyffryn.

Y Pum Ffordd o Weithio

Mae'r prosiectau'n annog plant iau i gymryd rhan a buddsoddi ac yn annog ymdeimlad o berchnogaeth o'r coetir i gynyddu'r tebygolrwydd o'i amddiffyn a'i ddiogelu a'i ddefnyddio'n gyfrifol am flynyddoedd i ddod. Mae hyn yn cefnogi dull adeiladu **tymor hwy** o barhau â'r gwaith hwn i'r dyfodol. Mae'r sesiynau cymunedol i gasglu a chlirio sbwriel yn helpu i fynd i'r afael â'r problemau yn y byrdymor. Mae plannu mwy yn yr ardal hefyd yn cyfrannu at gynyddu bioamrywiaeth sy'n helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng natur neu'i **atal**. Mae'r holl bartneriaid yn gweithio mewn ffordd **integredig** ac yn cydnabod yr amrywiaeth drawsbynciol o fanteision a geir ar draws pob nod lles trwy adfer a gwella natur, gan gynnwys gwella cyflogadwyedd; magu sgiliau; cynyddu iechyd meddwl a chorfforol; a hyrwyddo natur a bywyd gwyllt fel ein treftadaeth. Mae'r prosiect hwn hefyd yn cyfrannu at Amcan 4 y Cynllun Lles gan sicrhau bod gan y ddinas amgylcheddau iach, diogel a gwydn. Mae Llwybrau Lles Coetiroedd yn grŵp sefydledig o sefydliadau sy'n gweithio **ar y cyd**: Duffryn Community Link, Cadwch Gymru'n Daclus, Growing Space a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae cydweithio ehangach hefyd â phobl leol, ysgolion a Chartrefi Dinas Casnewydd. Mae mwy o ddiwrnodau ymgysylltu â'r gymuned yn yr arfaeth, sydd wedi bod yn her ers dechrau'r pandemig. Bydd ehangu'r Rhyfelwyr Coetir i flwyddyn 5 a 6 yn helpu i annog mwy o blant i **gymryd rhan** a buddsoddi yn y coetir gan y byddant yn helpu i gynllunio'r newidiadau o fewn y coetir a llunio'r sesiynau a bydd hyn yn creu ymdeimlad o berchnogaeth.

Mesurau Perfformiad

*Bydd mesurau perfformiad Mannau Gwyrdd a Diogel yn cael eu hadnewyddu erbyn diwedd 2021, yn dilyn cyhoeddi'r Weledigaeth, y Camau a'r Camau Gweithredu newydd a phenodol.

Mae gan Llwybrau Lles Coetiroedd fesurau perfformiad a gofynion i adrodd i Raglen Creu Eich Lle'r Loteri Fawr.

Edrych Ymlaen at y Dyfodol

Mae'r prosiect newydd gwblhau ei 4^{edd} flwyddyn gyda 3 blynedd ar ôl o hyd. Mae llawer o weithgarwch yn yr arfaeth i'r dyfodol ar gyfer pob rhan o'r prosiectau, gyda nifer o newidiadau ychwanegol i'r coetiroedd dros y misoedd nesaf gan gynnwys ehangu'r Rhyfelwyr Coetiroedd i gynnwys blwyddyn 5 a 6 (a amlinellir uchod).

Mae cynlluniau i ychwanegu llwybr mynediad i'r anabl trwy ardal y berllan ac ychwanegu meinciau picnic i wneud hyn yn fwy o le i'r teulu at ddefnydd y gymuned, a fydd yn digwydd dros y gaeaf hwn. Os bydd cyfyngiadau'n caniatáu, y nod yw cael mwy o ddiwrnodau ymgysylltu â'r gymuned sydd wedi bod yn her ers dechrau'r pandemig.

Rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diogel



Mae'r Swyddog Ymgysylltu Gwyrdd a Diogel yn cydlynu Rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diogel hirsefydlog sy'n meithrin gwaith partneriaeth. Mae tua 130 o aelodau yn cydweithio tuag at nodau cyffredin yr ymyriad Mannau Gwyrdd a Diogel.

Mae hyn yn ddull cyflawni pwysig a sylweddol, yn offeryn i dynnu sylw at gyfleoedd ar gyfer cydweithio, gan ddarparu arbenigedd a dealltwriaeth 'darlun mawr' werthfawr o'r holl waith sy'n digwydd ledled Casnewydd. Caiff y rhwydwaith ei gynnull mewn gweithdai rheolaidd i amlygu a rhannu dysgu ac arfer gorau ac fe'u tynnir ynghyd mewn grwpiau llai ar brosiectau penodol.

Mae'r Swyddog Ymgysylltu Gwyrdd a Diogel wrthi'n ehangu aelodaeth i greu rhwydwaith mwy amrywiol. Mae'r Ymyriad yn ceisio cefnogi mwy a mwy o grwpiau cymunedol, megis Green Caerleon, Wild About Rogerstone, Maindee Unlimited a Pride in Betws, trwy ddarparu cyngor, cymorth, hyrwyddo a chyfeirio at gyllid i helpu i wella mannau gwyrdd presennol a rhai segur.

Y Pum Ffordd o Weithio

Mae gan yr Ymyriad Mannau Gwyrdd a Diogel weledigaeth 25 mlynedd **hirdymor**, gan gydbwyso anghenion tymor byr â'r tymor hwy. Mae gan lawer o sefydliadau ar y Rhwydwaith brosiectau sy'n ystyried y tymor hir, yn enwedig o ran yr argyfyngau hinsawdd a natur, cenedlaethau'r dyfodol, ailgysylltu pobl â natur, a helpu cymunedau i reoli mannau gwyrdd yn y tymor byr a'r tymor hir gan ganolbwyntio ar gynaliadwyedd. Mae'r Rhwydwaith yn helpu i dynnu'r gwaith hwn at ei gilydd. Mae wedi'i hen sefydlu, a bydd y cysylltiadau a wneir yn debygol o barhau yn y tymor hir. Mae nodau cyffredin y Rhwydwaith o wella mannau gwyrdd i bobl a natur yn helpu i **atal** a lleihau problemau iechyd corfforol a meddyliol a chynyddu ymdeimlad da o les, cynyddu bioamrywiaeth, cefnogi bywyd gwyllt a mynd i'r afael â'r argyfwng natur, ac mae'n helpu Casnewydd i ddod yn fwy gwydn i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd. Mae'r Rhwydwaith hefyd yn gweithio mewn partneriaeth i gynyddu diogelwch neu ddiogelwch canfyddedig mewn mannau gwyrdd, gan gydweithio i ddod o hyd i ddulliau ataliol o ran rhwystrau i gael mynediad i fannau gwyrdd. Mae gan y Rhwydwaith nodau lles trawsbynciol sy'n **integreiddio** ac yn cyd-fynd â'i gilydd. Mae pob partner yn cydnabod yr amrywiaeth eang trawsbynciol o fuddion a geir ar draws pob nod lles trwy ddiogelu ac adfer natur, gan gefnogi lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. Mae'r Rhwydwaith hefyd yn croesi drosodd gydag Amcanion Lles 2 a 4, gan gynyddu gwydnwch a gwella sgiliau a chyfleoedd. Gyda thua 130 o aelodau, mae'r Rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diogel hirsefydledig yn meithrin partneriaethau cryf sy'n gweithio **ar y cyd** i gyflawni nodau cyffredin yr ymyriad Mannau Gwyrdd a Diogel. Lluniwyd yr ymyriad gan yr asesiad lles cychwynnol ond mae hefyd wedi'i lunio, ei ddatblygu a'i lywio gan arbenigedd gwerthfawr yr holl bartneriaid rhwydwaith hyn. Mae llawer o bartneriaid yn cyflawni gweithgarwch ymgysylltu sy'n **cynnwys** y cymunedau y maent yn gweithio gyda nhw.

Mesurau Perfformiad

*Bydd mesurau perfformiad Mannau Gwyrdd a Diogel yn cael eu hadnewyddu erbyn diwedd 2021, yn dilyn cyhoeddi'r Weledigaeth, y Camau a'r Camau Gweithredu newydd a phenodol.

Mesur Perfformiad	Targed	Gwirioneddol	CMG
Aelodau'r Rhwydwaith Gwyrdd a Diogel	50	130	Gwyrdd
Prosiectau'r Rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diogel sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd	25	18	Gwyrdd
Grwpiau cymunedol sy'n rhan o'r Rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diogel		14	Gwyrdd
Gweithdai rhwydwaith	3 y flwyddyn	2	Melyn
Nifer y bobl oedd yn bresennol yn y gweithdy diwethaf	30	32	Gwyrdd

Mae aelodaeth y rhwydwaith wedi cynyddu i 130 (10 yn fwy ers y llynedd), ac mae aelodaeth yn fwy amrywiol gydag ychwanegiadau newydd allweddol. Mynychir y gweithdai gan tua 30 i 40 o bobl gydag adborth cadarnhaol.

Cyhoeddir E-gylchlythyrau Mannau Gwyrdd a Diogel chwarterol gan dynnu gwaith y rhwydwaith ynghyd â diweddariadau rheolaidd a rhannu dysgu ar draws y rhwydwaith.

Edrych Ymlaen at y Dyfodol

Mae'r Swyddog Ymgysylltu Gwyrdd a Diogel wrthi'n ehangu aelodaeth i greu rhwydwaith mwy amrywiol ac mae'n gweithio i gyrraedd a chefnogi rhagor o grwpiau cymunedol. Bydd gweithdai rheolaidd a chylchlythyrau chwarterol yn parhau, gan roi cyfle ar gyfer dysgu a rennir a chydweithio.

Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu cynllun cyfathrebu ymhellach lle gall y rhwydwaith gefnogi prosiectau ei gilydd ac adfywio'r tag #MyWildNewport ar gyfryngau cymdeithasol. Mae cynlluniau ar y gweill hefyd i gyfathrebu ymyrraeth Mannau Gwyrdd a Diogel yn well i gymunedau; er enghraifft, gyda fersiwn un dudalen sy'n hawdd ei darllen o'r weledigaeth a'r nodau a sut y gallwn i gyd fod yn rhan ohonynt.

Man Gwyrdd Barrackswood





Dechreuodd Partneriaeth Natur Leol (PNL) Sir Fynwy a Chasnewydd brosiect yn 2020 gyda chyllid gan Grant Gwyrddio'r Ystad Gyhoeddus Lleoedd Lleol ar gyfer Natur. Bydd y project yn gwella gallu'r ardal i gefnogi adferiad natur trwy gynyddu rheolaeth cadwraeth, cyfathrebu ac ymgysylltu â thrigolion lleol. Bydd cynyddu mynediad i fannau gwyrdd naturiol o safon i wella iechyd a lles yn fwy tebygol o arwain at ddefnydd cadarnhaol a chyfrifol gan y gymuned.

Mae nifer o bartneriaid, gan gynnwys trigolion lleol a gwirfoddolwyr, yn cydweithio ym mannau gwyrdd Barrackswood i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon a gwella'r ardal. Mae llwybr newydd wedi'i greu, mae arwyddion newydd 'dim tipio anghyfreithlon' wedi'u gosod, mae gwirfoddolwyr wedi clirio sbwriel sydd wedi'i dipio'n anghyfreithlon ac mae partneriaid yn gweithio i fynd i'r afael â'r rhesymau dros hyn. Mae'r ardal chwarae wedi'i hadnewyddu, mae cyfle ar gyfer llwybr teithio llesol i gynyddu diogelwch ac mae cynlluniau i greu dôl blodau gwyllt. Mae hefyd wedi ysbrydoli mentrau ymhellach i ffwrdd i wella rhai o'r mannau gwyrdd llai yn yr ystadau tai gan gynnwys ardaloedd blodau gwyllt a thyfu llysiau.

Cyn

Wedyn

Mae'r grŵp gweithredu amlasiantaeth o bartneriaid, gan gynnwys Tai Pobl, Tai Melin, timau Cyngor Dinas Casnewydd, Taclo Tipio Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, a thrigolion lleol yn parhau i weithio i sicrhau bod y man gwyrdd yn dod yn ased naturiol i bobl a bywyd gwyllt.

Y Pum Ffordd o Weithio

Mae'r grŵp gweithredu amlasiantaeth o bartneriaid yn parhau i weithio, a thrwy ddatblygu grŵp gwirfoddoli lleol bydd hyn yn creu sylfaen gynaliadwy **hirdymor** ar gyfer cadwraeth barhaus a defnydd cadarnhaol a chyfrifol gan y gymuned. Mae cynyddu mynediad at fannau gwyrdd naturiol o safon i wella iechyd a lles lle mae ei angen fwyaf yn **atal** anghydraddoldebau mynediad pellach. Mae'r prosiect yn helpu i gefnogi gwydnwch ecosystemau, gan gynyddu bioamrywiaeth sy'n cefnogi gwaith i fynd i'r afael â'r argyfwng natur a cholli bioamrywiaeth. Mae'r prosiect yn helpu i gyfleu'r buddion i iechyd a lles pobl ynghyd â chysylltiad â natur. Mae partneriaid wedi gweithio gyda'i gilydd i atal rhagor o dipio anghyfreithlon rhag digwydd. Mae pob partner yn cydnabod yr amrywiaeth eang trawsbynciol **integredig** o fuddion a geir ar draws pob nod lles trwy ddiogelu ac adfer natur, gan gefnogi lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. Mae'r gwaith hwn hefyd yn cyfrannu at Amcan 4 y Cynllun Lles. Mae sawl partner, gan gynnwys trigolion lleol a gwirfoddolwyr, yn gweithio'n llwyddiannus **ar y cyd** i wella'r ardal ar gyfer pobl a natur. Mae trigolion lleol wedi rhoi cipolwg amhrisiadwy ar ganfyddiadau cymunedol blaenorol o'r mannau gwyrdd. Mae datblygiad a **chyfranogiad** y grŵp gwirfoddoli lleol wedi bod yn bwysig wrth fynd i'r afael â materion allweddol tipio anghyfreithlon a chadwraeth barhaus, gan uwchsgilio pobl leol i reoli eu mannau lleol. Mae Covid-19 wedi atal rhywfaint o ymgysylltu a chyfranogiad, ond caiff hyn gynyddu eto pan fydd y cyfyngiadau'n caniatáu hynny.

Mesurau Perfformiad

Byddwn yn ceisio mesur y mesurau canlynol dros amser: Lleihau tipio anghyfreithlon mewn Mannau Gwyrdd / Lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn Mannau Gwyrdd / Canran y "mannau gwyrdd trefol" hygyrch / Canran y prosiectau natur o safon / Prosiectau ar waith sy'n rhan o'r Rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diogel / Grwpiau cymunedol sy'n rhan o'r Rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diogel.

*Bydd mesurau perfformiad Mannau Gwyrdd a Diogel yn cael eu hadnewyddu erbyn diwedd 2021, yn dilyn cyhoeddi'r Weledigaeth, y Camau a'r Camau Gweithredu newydd a phenodol.

Edrych Ymlaen at y Dyfodol

Mae'r grŵp gweithredu amlasiantaeth o bartneriaid yn parhau i weithio i sicrhau bod y man gwyrdd yn dod yn ased naturiol i bobl a bywyd gwyllt.



Trwy brosiectau Greening Maindee, mae Maindee Unlimited (grŵp o drigolion lleol a sefydliadau partner) yn gweithio i wella a chreu mannau gwyrdd newydd yn ardal Maendy a Ward Fictoria yng Nghasnewydd. Dyma'r diweddaraf am eu prosiectau lu i wneud Maendy yn wyrddach:

Llwybr y Berllan

Yn ystod y gaeaf roedd Greening Maindee yn gyfrifol am ailblannu perllan gyda choed ffrwythau amrywiol a roddwyd trwy garedigrwydd Cadwch Gymru'n Daclus. Plannwyd y berllan hon i gymryd lle'r coed a oedd wedi'u dwyn y flwyddyn flaenorol. Mae cynlluniau ar waith i barhau i wella'r coridor gwyrdd hwn i gerddwyr yn ystod y flwyddyn nesaf. Mae cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys gwella'r coridor hwn i hybu bioamrywiaeth, a chyflwyno cais i Cadwch Gymru'n Daclus ar gyfer 'Pecyn Datblygu Gardd Tyfu Bwyd' i gynnig cyfleoedd i drigolion yng nghyffiniau Rodney Road greu rhandiroedd i dyfu bwyd.

Gardd Gymunedol y Santes Fair

Y Santes Fair yw'r gyntaf o'r gerddi cymunedol i gael eu creu ym Maendy ac mae'n aeddfedu'n hyfryd. Mae'r man hwn wedi dod yn hafan ar gyfer pryfed peillio trefol, ac mae wedi cael croeso cynnes gan y gymuned yn y tair blynedd ers ei greu. Mae'r holl welyau uchel ar y safle wedi'u mabwysiadu gan grwpiau lleol a thrigolion o gefndiroedd ethnig amrywiol yn y gymuned. Mae gwirfoddolwyr lleol yn cwrdd yn rheolaidd i gynnal a datblygu'r ardd. Mae grŵp menywod hefyd yn cwrdd yn rheolaidd yma i gymdeithasu a hogi eu sgiliau garddio.

Gosod Plannwr Cwch a Thirlunio Cysylltiedig

Ym mis Mai 2021, defnyddiodd Greening Maindee gwch ffeibr gwydr wedi'i adael a roddwyd gan Glwb Hwylio Aber Wysg Ar ôl gwneud gwaith atgyweirio a phaentio, roedd y cwch wedi'i 'angori' yn ddiogel ar dir amwynder wrth y gyffordd â Corporation Road a Wharf Road. Cafodd dros 7 tunnell o bridd ei fewnforio a'i gyfuchlinio o amgylch y cwch cyn ei blannu gyda llwyni blodeuol gwydn a phlanhigion lluosflwydd. Plannwyd y lle y tu mewn i'r cwch gydag amrywiaeth o rywogaethau planhigion alpaidd sy'n denu pryfed peillio a ddewiswyd ar gyfer eu lliw a'u goddefgarwch sychder. Mae Greening Maindee yn bwriadu parhau i wella'r tir y tu ôl i'r cwch trwy blannu coed, gwrychoedd brodorol ac ardaloedd plannu cymysg o blanhigion blodeuol lluosflwydd a llwyni gwydn. Bydd panel dehongli yn cael ei osod ar y safle sy'n manylu ar dreftadaeth y safle (hen fusnes llaethdy a thai teras) yn ogystal â'r dylanwad morol a chysylltiadau cryf â'r dociau/glanfeydd a oedd ar un adeg yn cyflogi cenedlaethau o bobl leol.

Llwybr Cerdded Maendy

Mae'r coridor llydan hwn i gerddwyr tua 150m o hyd gan gysylltu Maindee ag ardal Glan-yr-Afon yng Nghasnewydd. Mae Greening Maindee wedi bod yn brysur dros y flwyddyn ddiwethaf yn gwella'r fynedfa i Corporation Road. Roedd y lle yn llawn tyfiant gyda glaswellt rhy doreithiog, danadl poethion, mieiri a llwyth o sbwriel. Ar ôl clirio'r holl lystyfiant a gwreiddiau, a pharatoi'r gwely plannu a mewnforio pridd, cafodd Greening Maindee y syniad o greu gardd dull Mediteranaidd gyda rhywogaethau planhigion sy'n goddef sychder, yn wydn ac yn gallu addasu i amrywiaeth o amodau sy'n dechrau dod i'r amlwg oherwydd y newid yn yr hinsawdd. Dewiswyd y paled plannu am eu bod yn denu pryfed peillio ac yn sicrhau olyniaeth barhaus o flodeuo trwy gydol cyfnodau'r gwanwyn/haf. Ar ochr arall y coridor, crëwyd gardd drefol bwytadwy gydag amrywiaeth eang o ffrwythau meddal, perlysiau a llysiau sy'n cael eu tyfu er budd trigolion lleol i'w cynaeafu a'u defnyddio yn y prydau bwyd maen nhw'n eu coginio gartref. Wrth y fynedfa i'r llwybr cerdded mae dau wely uchel presennol wedi'u gwneud o frics wedi'u hadnewyddu a'u plannu gyda blodau lluosflwydd.

Canolfan Gymunedol Eveswell

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae tîm Greening Maindee wedi bod yn weithgar iawn yn gweddnewid tir Canolfan Gymunedol Eveswell. Ar ôl cael caniatâd gan Gyngor Dinas Casnewydd i ddatblygu'r lle awyr agored a derbyn swm bach o gyllid gan TOC-H, aeth Greening Maindee ati i greu gwelyau uchel i dyfu bwyd, plannu perllan a gosod gardd law ac amrywiaeth o welyau plannu gwahanol. Mae'r lle wedi'i ddatblygu gan roi cryn ystyriaeth i'n rhaglen 'Bwyd Am Oes', gan gynnig cyfleoedd mynediad i grwpiau ag anawsterau dysgu, ysgolion a thrigolion lleol. Y bwriad yw i ddefnyddwyr fwynhau dysgu sut i arddio a thyfu eu bwyd eu hunain. Mae Eveswell yn safle diogel, hygyrch a helaeth sydd â photensial aruthrol i wasanaethu'r gymuned. Mae Greening Maindee am barhau i ddatblygu'r lle a defnyddio'r adeilad i ddarparu cyrsiau hyfforddiant garddwriaethol, addysg amgylcheddol a chyfleoedd i bobl o'r un anian gwrdd â'i gilydd, cymdeithasu a chymryd rhan mewn prosiectau gwyrddio cymunedol. Mae'r grŵp wrthi'n trafod y syniad ag Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent o ddefnyddio Eveswell fel cyfleuster i bobl ifanc ddysgu, datblygu a gweithredu atebion trefol sy'n seiliedig ar natur.

Caffi Triongl, Lle Cymunedol ac Ardal Hamdden Awyr Agored Maendy

Mae'r prosiect hwn wedi bod yn yr arfaeth dros 4 blynedd. Llwyddodd Maindee Unlimited i sicrhau cyllid gan Gronfa Cyfleusterau Cymunedol Llywodraeth Cymru, Y Loteri Fawr, a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC). Mae'r cam adeiladu ar y gweill ar hyn o bryd gyda'r contractwyr, Mobius, yn gwneud gwaith o droi'r hen floc toiledau yn gaffi a lle cymunedol i bawb. Mae'r lle awyr agored hefyd yn cael ei wella i ddarparu mannau i deuluoedd eu mwynhau mewn lleoliad naturiol llonydd wedi'i osod ymhlith trefn blannu sy'n llesol i natur. Mae'r cynllun cyffrous hwn wedi'i gynllunio a'i oruchwylio gan benseiri enwog KHBT. Mae'r cyfleusterau'n cynnwys ardal berfformio awyr agored a wal ddringo i blant. Rydym hefyd yn creu ardal blannu ar thema coetir wrth ochr y caffi. Mae'r prosiect hwn yn seiliedig ar egwyddorion cynaliadwyedd craidd – mae'r BGC wedi darparu cyllid ar gyfer system cynaeafu dŵr glaw a chysgodfannau toeon gwyrdd awyr agored ar gyfer storio a beiciau. Bydd y caffi'n cael ei redeg gyda'r nod o sicrhau dim gwastraff ac ymddygiadau sy'n cael effaith isel ar yr amgylcheddol. Y gobaith yw y bydd y Triongl yn ychwanegiad ffyniannus a bywiog i stryd fawr Ffordd Cas-gwent, gan roi hwb i fasnach leol a chyfleuster y gall y gymuned ymfalchïo ynddo. Y dyddiad lansio disgwyliedig yw canol i ddiwedd mis Medi 2021.

Y Pum Ffordd o Weithio

Mae pob prosiect yn ystyried anghenion byrdymor y cymunedau lleol ac ymwelwyr yn ogystal â buddion mannau gwyrdd wedi'u gwella i genedlaethau'r dyfodol yn yr **hirdymor**, gan ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur, a chreu dull cynaliadwy hirdymor o ymdrin â phob prosiect i barhau â'r gwaith hwn i'r dyfodol. Mae prosiectau Greening Maindee yn helpu i gefnogi gwydnwch ecosystemau, adfer natur, a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Mae'r prosiectau'n helpu i annog cysylltiad â natur ac i hyrwyddo bywyd gwyllt mewn ardal drefol iawn. Mae gwella mannau gwyrdd sydd wedi'u hesgeuluso yn helpu i **atal** difrod amgylcheddol pellach a thipio anghyfreithlon. Mae Maindee Unlimited, Tîm Greening Maindee a'r holl bartneriaid yn gweithio mewn modd **integredig**, gan gydnabod yr amrywiaeth eang trawsbynciol o fuddion a geir ar draws pob nod lles trwy adfer a gwella natur, gan gefnogi lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. Mae'r gwaith hwn hefyd yn cyfrannu at Amcan 4 y Cynllun Lles. Mae Maindee Unlimited a Thîm Greening Maindee yn cydweithio â nifer o bartneriaid a sefydliadau eraill i weithredu eu gweledigaeth a'u prosiectau sy'n helpu i gysylltu pobl â natur a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Mae Maindee Unlimited yn **cynnwys** ac yn ymgysylltu'n rheolaidd â phobl, cymunedau a busnesau lleol trwy ymgynghoriadau a sgyrsiau sy'n arwain at lunio prosiectau Greening Maindee. Mae hyn hefyd wedi arwain at gynnig cyfleoedd gwirfoddoli awyr agored/amgylcheddol a ffyrdd o ennill sgiliau 'gwyrdd' newydd.

Mesurau Perfformiad

Byddwn yn ceisio mesur y mesurau canlynol dros gyfnod: Canran cyfanswm y "mannau gwyrdd trefol" hygyrch / Canran cyfanswm y mannau gwyrdd a'r seilwaith gwyrdd / Canran y natur o ansawdd da / Dangosydd Cenedlaethol 44: Statws amrywiaeth biolegol yng Nghymru (Casnewydd) / Lleihau tipio anghyfreithlon mewn Mannau Gwyrdd / Safleoedd sy'n bodloni meini prawf llawn y Faner Werdd erbyn 2023 / Nifer y safleoedd sy'n bodloni meini prawf a reolir gan y gymuned / Prosiectau gweithredol sy'n rhan o'r Rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diogel / Grwpiau cymunedol sy'n rhan o'r Rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diogel.

*Bydd mesurau perfformiad Mannau Gwyrdd a Diogel yn cael eu hadnewyddu erbyn diwedd 2021, yn dilyn cyhoeddi'r Weledigaeth, y Camau a'r Camau Gweithredu newydd a phenodol.

Edrych Ymlaen at y Dyfodol

Yn ogystal â'r gwaith parhaus ar gyfer holl brosiectau Greening Maindee, mae cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys:

Parc Poced Halstead Street

Mae hwn yn ddarn bach o dir ar gornel Halstead Street a Corporation Road sy'n eiddo i Cartrefi Dinas Casnewydd. Mae'r safle'n aml yn denu pyliau mynych o dipio anghyfreithlon. Ar hyn o bryd mae Maindee Unlimited yn cwblhau telerau'r brydles gyda Cartrefi Dinas Casnewydd. Ar ôl gwneud hynny, gall y gwaith ddechrau i greu parc poced bywiog a fydd yn gwella'r strydlun yn sylweddol i drigolion lleol. Cafwyd swm bach o arian trwy garedigrwydd y BGC i brynu deunyddiau tirlunio, agregau, pridd a phlanhigion. Mae'r gwaith ar y parc poced yn dechrau yn hydref 2021.

Murlun ar Thema Bywyd Gwyllt

Wrth fynedfa'r llwybr sy'n rhedeg ochr yn ochr â Rodney Parade ac Ysgol Gynradd Maendy, mae pen talcen tŷ sy'n llawn tagiau a graffiti di-olwg. Mae Greening Maindee wedi cysylltu ag artist sefydledig o Gasnewydd, Andy O'Rourke, i greu murlun mawr ar thema natur ar y wal a fydd yn ychwanegiad hardd at y strydlun ac yn nodwedd eiconig o fewn y gymuned. Bydd y bywyd gwyllt a gaiff ei bortreadu yn y murlun yn adlewyrchu'r rhywogaethau trefol y gellir eu gweld ar draws Maendy. Y bwriad yw y bydd Ysgol Gynradd Maendy yn ymgysylltu â'r murlun fel cyfle dysgu ecolegol a fydd yn arwain at deithiau darganfod natur lleol i nodi'r rhywogaethau niferus a geir yn y paentiad. Mae'r murlun wedi'i ariannu trwy roddion hael gan fusnesau lleol yn y gymuned. Bydd bwrdd dehongli yn cael ei osod i dynnu sylw at bwysigrwydd bioamrywiaeth drefol a'n cysylltiad â natur a mannau gwyrdd er ein lles ni.



Cynnig Archwiliwr Strydlun a Llwybr Gwyrdd Maendy

Mae Greening Maindee yn bwriadu parhau â'i waith i weddnewid pocedi o fannau gwyrdd, ymylon ffyrdd a choridorau trefol sydd wedi'u hesgeuluso a'u hanghofio ar draws Maendy dros y blynyddoedd nesaf. Llwyddodd Greening Maindee i sicrhau £3k o gyllid gan Your Voice, Your Choice, Your Port yn gynharach eleni, a fydd yn cael ei ddefnyddio i barhau i wyrddio Maindee, gan brynu planhigion, pridd a deunyddiau tirlunio a ddefnyddir i adfywio mannau sydd wedi'u hesgeuluso. Ar hyn o bryd mae tîm Greening Maindee yn aros am ganlyniad cais am gyllid i Bartneriaeth Natur Leol Trefynwy a Chasnewydd. Y cynnig yw creu Map Archwilio Gwyrdd Maendy a fydd yn darparu llwybr cerdded sy'n cysylltu holl safleoedd y prosiect gwyrddio ledled y gymdogaeth. Ym mhob un o'r safleoedd bydd arwydd motiff natur mawr yn rhoi gwybodaeth/esboniad o'r gwaith a'r budd i'r gymuned. Bydd yr arwyddion pwrpasol yn cael eu creu gan Reseiclo - Prosiect Ailgylchu Coed Casnewydd.

Rhaglen Cyllidebu Cyfranogol Covid-19



Roedd partneriaid y BGC yn cydnabod effaith Covid-19 ar lawer o'n cymunedau lleiafrifol, ymylol neu ynysig a datblygodd Asesiad cynhwysfawr o'r Effaith ar y Gymuned (AEG) i lywio ein gwaith ymateb ac adfer. Mae'r AEG yn canolbwyntio ar yr effeithiau a brofir gan bobl sy'n rhannu Nodweddion Gwarchodedig, ond hefyd ar ffactorau economaidd-gymdeithasol, fel cyflogaeth a'r perygl o dlodi, cydlyniant cymunedol a mudo. Cafodd yr AEG ei lywio gan y dystiolaeth a'r ymchwil sydd ar gael, yn ogystal â chyfres o sesiynau ymgysylltu â chymunedau ar thema.

EIN LLAIS EIN DEWIS EIN PORT
Ariannu Cymunedau Cryfach

Roedd yr AEG yn llywio nodau adfer strategol y Cyngor a datblygu rhaglen Cyllidebu Cyfranogol, a gyflwynwyd mewn partneriaeth rhwng Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan a Chyngor Dinas Casnewydd gyda chymorth yr ymgynghorwyr allanol, Mutual Gain.

Goruchwyliwyd y rhaglen gan grŵp llywio cymunedol a oedd yn cydlynu dosbarthiad dros £100,000 o gyllid y Bwrdd Iechyd i 24 o brosiectau cymunedol ar lawr gwlad ledled y ddinas. Mynychwyd digwyddiad ar-lein 2 ddiwrnod gan tua 400 o drigolion Casnewydd, a bleidleisiodd dros y mentrau hynny sydd fwyaf tebygol o fod o fudd i gymunedau amrywiol. Roedd rhaid i bob prosiect ddangos tystiolaeth o sut y byddai'n helpu i adfer effeithiau Covid-19 a lleihau anghydraddoldebau sy'n ymwneud â meysydd allweddol gan gynnwys allgáu digidol, iechyd a lles a chael mynediad i wybodaeth. Mae enghreifftiau o fideos a gynhyrchwyd gan ymgeiswyr llwyddiannus yn cynnwys Early Angels a St Giles.

Y Pum Ffordd o Weithio

Mae'r rhaglen yn dangos egwyddorion ymyrraeth **ataliol** sy'n helpu i adfer effeithiau Covid-19 a lleihau anghydraddoldebau. **Cyfranogiad** cadarnhaol gan y gymuned, gyda thua 400 o drigolion Casnewydd yn dod at ei gilydd i bleidleisio ar y prosiectau a gyflwynwyd. Gweithio mewn partneriaeth strategol a chydweithio gan bartneriaid gan ddefnyddio dull **integredig** o adfer ar ôl y pandemig. Mae hefyd yn cydnabod canlyniadau anghyfartal uniongyrchol y pandemig a'r angen i weithredu nawr i atal hyd yn oed mwy o anghydraddoldeb dros y **tymor hwy**.

Mesurau Perfformiad

Dyfarnwyd grantiau i 24 o brosiectau cymunedol ar lawr gwlad ledled y ddinas o gronfa £100,000 a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd. Pleidleisiwyd am y prosiectau hyn gan tua 400 o drigolion Casnewydd a fynychodd ddigwyddiad ar-lein 2 ddiwrnod.

Cefnogi Cymuned ein Lluoedd Arfog





Mae Fforwm Lluoedd Arfog Casnewydd yn dwyn ynghyd nifer o aelodau'r BGC, sefydliadau'r trydydd sector a chymuned leol y Lluoedd Arfog. Mae ein gwaith yn helpu i gyflawni yn erbyn Cyfamod y Lluoedd Arfog, sy'n ceisio sicrhau nad yw aelodau presennol neu gyn-aelodau'r Lluoedd Arfog o dan anfantais wrth geisio gwasanaethau o ganlyniad i fywyd milwrol.

Rydym wedi cefnogi Hwb Cyn-filwyr Casnewydd i sefydlu ei hun fel Cwmni Buddiannau Cymunedol a derbyn cyllid grant ar gyfer prosiectau yn y ddinas i leihau unigedd a chreu rhwydwaith cymorth, gan gynnwys mentrau iechyd meddwl. Rydym wedi llwyddo i helpu ymhellach trwy gynnal sesiynau galw heibio'r Hwb, darparu lle rhandir at ddefnydd cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog a chysylltu'r Hwb â chymorth tai a chyngor arall.

Mae Fforwm Lluoedd Arfog Casnewydd wedi bod ar flaen y gad o ran gwaith i sicrhau nad yw agweddau ar fywyd milwrol yn effeithio ar addysg plant y Lluoedd Arfog, megis symud ysgol sawl tro, neu aelod o'r teulu yn cael ei anfon ar ddyletswydd. Arweiniodd cynllun peilot cynharach yng Nghasnewydd at greu pedair swydd ranbarthol i gefnogi plant y Lluoedd Arfog ledled Cymru eleni ac mae un o'r rolau hyn yn parhau i gael ei chynnal gan gyngor y ddinas, gan gynnig rhaglen gymorth a gynorthwyir gan grant yn ein hysgolion. Er bod Covid-19 wedi effeithio ar gyflawni'r rhaglen lawn, mae wedi bod yn bosibl o hyd i ddarparu gweithgarwch partneriaeth mewn ysgolion gyda'r sefydliad milwrol, Forces Fitness.

Mae'r gweithgarwch hwn, gan gynnwys gweithgareddau ffitrwydd, heriau tîm, ac awgrymiadau iechyd a lles i feithrin gwydnwch a hyder, wedi bod ar gael i bob ysgol ac wedi creu llwyfan i godi ymwybyddiaeth o fywyd teuluoedd y Lluoedd Arfog a'r heriau y gallai plant aelodau'r Lluoedd Arfog eu hwynebu. Mae gwybodaeth am hyfforddiant hefyd wedi'i datblygu i addysgu staff yr ysgol am brofiadau plant y Lluoedd Arfog a hwyluso trafodaethau am y camau y gall yr ysgol eu cymryd i ymgorffori arfer dda.

Mae llawer o aelodau'r BGC hefyd wedi derbyn gwobrau efydd, arian ac aur trwy'r Cynllun Cydnabod Cyflogwyr Amddiffyn, gan gydnabod ymrwymiad i fabwysiadu arferion a pholisïau sy'n cefnogi cyflogi aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog o fewn ein sefydliadau. Mae hyfforddiant staff sy'n ymwneud â Chyfamod y Lluoedd Arfog wedi parhau eleni.

Y Pum Ffordd o Weithio

Nod y gwaith yw cefnogi plant y Lluoedd Arfog yn ein hysgolion i sicrhau y bydd eu cyrhaeddiad addysgol yn eu helpu i gyflawni eu potensial yn y tymor byr a'r **tymor hir**. Mae'r gwaith yn ceisio **atal** anfantais wrth geisio gwasanaethau lleol, o ganlyniad i wasanaeth milwrol. Mae cynnwys partneriaid yn y Fforwm yn helpu i sicrhau y gall ystyried anghenion Cymuned y Lluoedd Arfog lywio arferion a pholisïau'r sefydliadau unigol trwy wella **integreiddio**. Mae gwaith Fforwm Lluoedd Arfog Casnewydd yn seiliedig ar **gydweithio** rhwng partneriaid y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i gefnogi cymuned y lluoedd arfog yng Nghasnewydd yn y ffordd orau. Mae grwpiau lleol sy'n cynrychioli Milwyr Wrth Gefn a Chyn-filwyr yn rhan o Fforwm Lluoedd Arfog Casnewydd i sicrhau eu **cyfranogiad**, fel bod eu lleisiau'n cael eu clywed.

Edrych Ymlaen at y Dyfodol

Daw deddfwriaeth Cyfamod y Lluoedd Arfog newydd i rym yn y DU yn 2022, gan osod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ystyried anghenion cymuned y Lluoedd Arfog wrth wneud penderfyniadau ym meysydd addysg, iechyd a thai er mwyn atal anfantais. Byddwn yn paratoi ar gyfer y ddeddfwriaeth hon ac yn ystyried arfer gorau.

Bydd Diwrnod Cenedlaethol Lluoedd Arfog Cymru yng Nghasnewydd yn 2023. Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau bod Cymuned y Lluoedd Arfog yn teimlo bod pobl yn ddiolchgar iddi ac yn ei gwerthfawrogi a byddwn yn defnyddio hyn fel cyfle i ddatblygu prosiectau cydweithredol newydd.

Cynlluniau Ychwanegol ar gyfer y Dyfodol

Rhagnodi Gwyrdd

Mae rhai o'r Rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diogel wedi bod yn cydweithio i archwilio cynllun peilot Rhagnodi Cymdeithasol Gwyrdd yng Nghasnewydd. Cynhaliwyd rhai sesiynau gyda darparwyr gweithgareddau gwyrdd neu awyr agored, a chyflwynwyd y syniad i feddygon teulu mewn dau Rwydwaith Gofal Cymdogaeth (RhGC). Y bwriad nawr yw archwilio'r cysyniad hwn ar lefel Gwent gyfan dros y flwyddyn nesaf, gan ddysgu o gynllun peilot a gynhelir yng Nghaerffili.

Cysylltu Natur â'r Celfyddydau

Dros y flwyddyn nesaf, nod yr ymyrraeth Mannau Gwyrdd a Diogel yw cysylltu mwy â chelfyddydau Casnewydd Fyw i gysylltu natur â chelfyddydau, diwylliant a threftadaeth Casnewydd.

Coed Lleol – Coed Ringland

Yn dilyn sesiwn flasu lwyddiannus a phoblogaidd ar gyfer lles coetiroedd yng nghoed Ringland yn gynharach yn yr haf, mae cynlluniau ar y gweill i Coed Lleol gynnal 6 sesiwn Coed Actif dros y misoedd nesaf. Gall gweithgareddau gynnwys coginio dros dân gwersyll a chwilota am fwyd, teithiau cerdded coetir, gweithgareddau cadwraeth, crefftau coetir ac ymwybyddiaeth ofalgar. Mae'r prosiect yn helpu pobl i

ddarganfod sgiliau newydd a phethau newydd y gallant deimlo'n frwd drostynt, magu hyder, ymarfer corff, gwneud ffrindiau a helpu i ddiogelu ein hamgylchedd.

Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent - Sefyll Dros Natur

Mae Casnewydd yn un o'r meysydd ffocws ar gyfer y prosiect Sefyll dros Natur, sydd wedi'i ariannu tan 2024 ac yn brosiect newid hinsawdd ieuenctid ar gyfer pobl ifanc rhwng 9 a 24 oed i chwyddo lleisiau ifanc, grymuso a gwella sgiliau pobl ifanc, a gweithredu dros ein hinsawdd gan ddefnyddio atebion sy'n seiliedig ar natur megis creu dolydd blodau gwyllt, plannu coed, sefydlu toeau gwyrdd a gerddi dŵr glaw a gwneud lle i fyd natur.

Mae gan Gasnewydd amgylcheddau iach, diogel a gwydn gyda rhwydwaith teithio cynaliadwy integredig

Er mwyn dangos y cynnydd a wnaed yn erbyn yr amcan lles hwn yn ystod 2020-21 nodwyd nifer o astudiaethau achos. Mae pob astudiaeth achos / enghraifft yn cynnwys y manylion canlynol: disgrifiad byr; pa Ymyriad(au) a Nodau Lles y mae'n ymwneud â nhw; sut y defnyddiwyd y Pum Ffordd o Weithio; unrhyw fesurau perfformiad; a chynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Diwrnod Aer Glân - 17 Mehefin 2021





Fel rhan o fenter flynyddol Diwrnod Aer Glân y DU, mae Cyngor Dinas Casnewydd yn hyrwyddo taith gerdded 5km a thaith 30km ar olwynion i aelodau'r BGC. Diwrnod Aer Glân yw ymgyrch llygredd aer fwyaf y DU, sy'n ymgysylltu â miloedd o bobl mewn cannoedd o ddigwyddiadau, ac yn cyrraedd miliynau yn fwy drwy'r cyfryngau. Bob blwyddyn, mae llygredd aer yn achosi hyd at 36,000 o farwolaethau yn y DU. Mae Sefydliad Iechyd y Byd a Llywodraeth y DU yn cydnabod mai llygredd aer yw'r perygl mwyaf o ran iechyd yr amgylchedd a wynebwn heddiw.

Nod Diwrnod Aer Glân yw gwella dealltwriaeth y cyhoedd o lygredd aer a sut mae'n effeithio ar ein hiechyd tra'n esbonio'r camau hawdd y gall pawb eu cymryd i fynd i'r afael â'r broblem. Roedd cyfyngiadau Covid-19 yn golygu nad oedd modd cynnal digwyddiad agored yng Nghasnewydd eleni. Fodd bynnag, crëwyd digwyddiad a oedd yn caniatáu i gyfranogwyr a wahoddwyd gymryd rhan mewn teithiau cerdded / beicio heb gymorth gan ddefnyddio llwybrau teithio llesol newydd a phresennol Casnewydd. Cafodd fflyd o fysus trydan Bws Casnewydd ei harddangos hefyd fel enghraifft o gynllun sy'n helpu i wella ansawdd aer y ddinas.

Dywedodd trefnydd y digwyddiad, Steve Manning (Uwch Swyddog Gwyddonol, Cyngor Dinas Casnewydd):

> *"Mae cysylltiad anorfod rhwng ansawdd aer, cynaliadwyedd a newid yn yr hinsawdd, felly fy syniad ar gyfer 2021 oedd defnyddio'r Diwrnod Aer Glân i ddathlu llwybrau teithio llesol newydd a phresennol sy'n rhoi aer glanach i bawb, yn enwedig plant. Ac roedd cael lleoliad fel Felodrom Geraint Thomas gyda'i araeau paneli solar arloesol ynghyd ag arddangosfa o gerbydau trydan wedi creu digwyddiad amgylcheddol integredig a oedd yn gweithio ar nifer o lefelau i bawb a fynychodd. Roedd lefel y diddordeb a grëwyd gyda phresenoldeb Arweinydd y Cyngor, y cynghorwyr a dirprwy weinidog Cymru yn dyst i hyn'.*

Darllenwch y stori lawn am y digwyddiad ar ein gwefan.

Y Pum Ffordd o Weithio

Mae hyrwyddo'r fenter Diwrnod Aer Glân blynyddol yn helpu i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r effaith y mae ansawdd aer gwael yn ei chael ar sawl agwedd ar fywydau pobl, gan greu mwy o wytnwch yn y gymuned. Drwy esbonio sut y gall mathau cynaliadwy o drafnidiaeth a'r defnydd o lwybrau teithio llesol yng Nghasnewydd helpu i fynd i'r afael â phroblem llygredd aer, bydd ansawdd aer yn gwella yn y **hirdymor** drwy leihau nifer y cerbydau preifat ar y ffordd. Bydd hyn hefyd yn cael effaith gadarnhaol ehangach ar y newid yn yr hinsawdd. Bob blwyddyn, mae llygredd aer yn achosi hyd at 36,000 o farwolaethau yn y DU. Mae'r fenter Diwrnod Aer Glân yn codi ymwybyddiaeth o effaith negyddol llygredd aer ar iechyd y gymuned ac yn nodi atebion posibl i'r broblem. Mae hyrwyddo Teithio Llesol hefyd yn cyfrannu at lefelau uwch o weithgarwch corfforol, gan **atal** problemau iechyd a all godi o ganlyniad i ddiffyg gweithgarwch corfforol rheolaidd. Roedd hyrwyddo'r digwyddiad a'r mynychwyr ar y diwrnod yn cynnwys **gweithio ar y cyd** gyda nifer o bartneriaid o fewn y BGC, gan ddangos pwysigrwydd gweithio ar draws sectorau wrth ddatblygu opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy ar draws y ddinas a'r rhanbarth ehangach.

Mesurau Perfformiad

Mesurau sy'n gysylltiedig â Theithio Llesol o fewn yr Ymyrraeth Teithio Cynaliadwy.

Llogi Beiciau Stryd





Cynhaliwyd astudiaeth ddichonoldeb llogi beiciau stryd yn 2019. Mae'r astudiaeth yn darparu fframwaith o opsiynau ar gyfer cynllun llogi beiciau ar gyfer ardal y ddinas gyfan. Mae'r astudiaeth yn nodi'r achos strategol dros weithredu'r cynllun, yn nodi lleoliadau addas ac yn pennu'r boblogaeth mewn dalgylch ar gyfer gwahanol raddfeydd o gynllun.

Byddai cynllun yn ninas Casnewydd hefyd yn ategu'r gwaith o gyflawni Metro De Cymru, gan gefnogi integreiddio a mynediad cynaliadwy ar draws y rhanbarth.

Mae llwyddiant y cynllun llogi beiciau yng Nghaerdydd a weithredir gan Nextbike, yn cefnogi ymhellach y cyfle i ddarparu cynllun tebyg yng Nghasnewydd, sydd o broffil a graddfa addas i'r ddinas ac sy'n diwallu anghenion ei thrigolion, ei gweithwyr a'i hymwelwyr.

Ers cwblhau'r astudiaeth o ddichonoldeb, cynhaliwyd ymchwiliadau manwl pellach ar gyfer lleoliadau'r orsaf llogi beiciau, gan gynnwys sylfeini, ymgynghori â thirfeddianwyr a lleoliadau pwyntiau gwefru ar gyfer e-feiciau. Ymchwiliwyd hefyd i fecanweithiau cyflawni a gallent gynnwys gweithio gyda Casnewydd Fyw i hwyluso gofynion ymarferol y cynllun gan gynnwys trwsio beiciau a rheoli lleoliadau gyda'r cyfleoedd ar gyfer mentrau cymdeithasol gyda chysylltiadau â'r Felodrom Cenedlaethol.

Y Pum Ffordd o Weithio

Caiff gwella teithio llesol a lleihau tagfeydd traffig fuddion **hirdymor** i iechyd a lles cenedlaethau presennol a'r dyfodol drwy gyfrannu at wella ansawdd aer a lleihau allyriadau carbon yn ardal Casnewydd. Yn ogystal, bydd hyn yn cyfrannu at liniaru newid yn yr hinsawdd, y rhagwelir y bydd yn cael effaith negyddol sylweddol ar genedlaethau'r dyfodol. Mae ansawdd aer gwael wedi ei gysylltu â chanser, broncitis, asthma, dementia a llawer o afiechydon eraill. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi rhagweld y bydd

40,000 o farwolaethau cynamserol yn y DU yn cael eu priodoli i lygredd aer. Bydd lleihau traffig a chynyddu teithio llesol yn cyfrannu at wella ansawdd aer ac **atal** afiechyd a marwolaethau. Mae angen dull **integredig** ar gynllun llogi beiciau, gan alinio'n gryf â'r nodau lles er mwyn sicrhau Cymru fwy gwydn, iach, ffyniannus, cydlynol a chyfrifol yn fyd-eang. Gweithiodd Arcadis Consulting a Chyngor Dinas Casnewydd **ar y cyd** i gynnal yr astudiaeth o ddichonoldeb. Yn ogystal, er mwyn llywio'r astudiaeth, cafodd aelodau o'r cyhoedd a chyflogwyr ledled Casnewydd eu gwahodd i **gymryd rhan** mewn arolwg ar-lein o'r galw am logi beiciau, a ddenodd 273 o bobl. Roedd hyn yn ei gwneud yn bosibl datblygu dealltwriaeth o gefnogaeth y cyhoedd i gyflwyno cynllun llogi beiciau yng Nghasnewydd, y galw posibl am ei ddefnyddio a nodi'r lleoliadau a ffefrir ar gyfer gorsafoedd llogi beiciau ledled y ddinas.

Edrych Ymlaen at y Dyfodol

Mae cynlluniau ar waith nawr i roi'r cynllun ar waith unwaith y daw arian ar gyfer prynu beiciau, e-feiciau, gorsafoedd llogi a phwyntiau gwefru.

Dangosfwrdd Data Diogelwch ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (YG)





Crëwyd dangosfwrdd data Diogelwch ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol drwy waith partneriaeth cryf rhwng Cyngor Dinas Casnewydd, Heddlu Gwent, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Taclo Tipio Cymru. Un o'i ddefnyddiau yw troshaenu data tipio anghyfreithlon, llosgi bwriadol a throseddu gyda mannau gwyrdd i ddarparu gwell dealltwriaeth, a chanolbwyntio ymdrechion ar y cyd a dod o hyd i atebion i wneud mannau gwyrdd yn ddiogel ac yn hygyrch i bawb.

Mae'r wybodaeth yn cael ei rhoi i Gyngor Dinas Casnewydd gan bob partner bob chwarter, ac mae'r data'n ddiogel ac yn ddienw. Mae trafodaethau ar ei ddefnydd gweithredol yn parhau, gan gynnwys ei droshaenu â llwybrau Teithio Llesol newydd a gwell i weld a allai mwy o Deithio Llesol helpu i leihau rhai problemau.



Y Pum Ffordd o Weithio

Mae'r prosiect yn cael ei gydlynu ar hyn o bryd gan Gyngor Dinas Casnewydd gan ddefnyddio llwyfan a dull sy'n gynaliadwy yn y **hirdymor**, yn hygyrch ac y gellir eu diweddaru'n hawdd. Y gobaith yw y gallwn weld gostyngiad yn yr ymddygiad gwrthgymdeithasol dros y tymor hir. Nod y dangosfwrdd yw deall lefelau ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn ardal i roi mwy o fesurau **ataliol** ar waith i leihau achosion o YG gan greu mannau mwy deniadol a diogel. Mae nodau lles yr holl sefydliadau partner a grwpiau cymunedol wedi ategu ei gilydd gan ddangos **integreiddiad** cadarnhaol. Mae hwn yn **waith ar y cyd** rhwng sawl sefydliad gan gynnwys Cyngor Dinas Casnewydd, Heddlu Gwent, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, a Taclo Tipio Cymru. Mae mewnbwn rhanddeiliaid wedi bod yn werthfawr iawn gan y sefydliadau partner. Rydym yn sylweddoli bod cyfyngiadau ar y data ac felly mae **cynnwys** pobl leol i gael eu mewnwelediad cymunedol gwerthfawr a darganfod pa faterion sy'n bwysig iddynt eu datrys yn allweddol wrth symud ymlaen. Y nod yw gweithio gyda phobl leol a grwpiau cymunedol a'u cynnwys yn y gwaith gan ei bod yn allweddol i greu balchder yn yr ardal, annog defnydd cyfrifol o fannau gwyrdd, a lleihau'r tebygolrwydd o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Bydd pob ardal yn unigryw a bydd angen atebion yr un mor unigryw. Mae ymgysylltu â'r rhai sy'n camddefnyddio mannau gwyrdd ac ysbrydoli cysylltiad â natur yn ddyhead allweddol.

Mesurau Perfformiad

Byddwn yn ceisio monitro'r tueddiadau canlynol dros amser: Lleihau tanau bwriadol mewn mannau gwyrdd / lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn mannau gwyrdd / lleihau tipio anghyfreithlon mewn mannau gwyrdd.

Edrych Ymlaen at y Dyfodol

Mae trafodaethau ar ddefnydd gweithredol yn parhau, gan gynnwys dewis llond llaw o ardaloedd sydd â'r angen mwyaf i ganolbwyntio ymyriadau i wella'r mannau gwyrdd hynny a'u diogelwch, mewn partneriaeth â sefydliadau perthnasol. Mae defnydd lluosog gan ffrydiau gwaith eraill (nid mannau gwyrdd yn unig) yn cael eu harchwilio.

Map Seilwaith Gwyrdd



Mae **Map / Cronfa Ddata Seilwaith Gwyrdd** o Gasnewydd wedi'i chreu gan ddefnyddio Cyllid Strategol a Ddyrannwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Drwy broses dendro, contractiwyd Environment Systems i ddarparu'r gronfa ddata erbyn mis Mawrth 2021. Mae'r wybodaeth bellach yn cael ei chadw gan Gyngor Dinas Casnewydd ac mae gwaith yn mynd rhagddo i wneud y wybodaeth hon yn gyhoeddus.



Lluniwyd adroddiad hefyd sy'n rhoi mwy o fanylion ac awgrymiadau tymor hwy. Bydd ganddo sawl defnydd gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Yr Asesiad Seilwaith Gwyrdd;
- Y Cynllun Datblygu Lleol Newydd a phenderfyniadau cynllunio eraill;
- Amserlenni torri glaswellt;

- Dangos gwerth natur, bioamrywiaeth a mannau gwyrdd a glas ar gyfer iechyd a lles, lliniaru perygl llifogydd, ei gyfraniad at ansawdd aer, a'i werth wrth liniaru newid yn yr hinsawdd;
- Hyrwyddo mannau gwyrdd a glas hygyrch i annog pobl i gysylltu â natur a'r awyr agored;
- Canolbwyntio ar gyfleoedd i gynyddu'r ddarpariaeth lle mae diffyg ac angen ar ei fwyaf;
- Canolbwyntio ar gyfleoedd i gysylltu mannau gwyrdd a glas i greu coridorau gwyrdd/bywyd gwyllt; ac
- Amlygu lle gallwn annog mwy o fioamrywiaeth mewn gerddi preifat i greu coridorau gwyrdd.

Y Pum Ffordd o Weithio

Cyngor Dinas Casnewydd yw'r sefydliad sy'n lletya, a bydd y map yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd. Lluniwyd adroddiad ochr yn ochr â'r map sy'n rhoi mwy o fanylion ac awgrymiadau **tymor hwy**. Gall y map helpu i wneud penderfyniadau hirdymor ynghylch y Cynllun Datblygu Lleol Newydd a phenderfyniadau cynllunio eraill, a chefnogi cydnerthedd ecosystemau a lliniaru yn erbyn newid yn yr hinsawdd. Mae'r map yn helpu i ddangos gwerth mannau gwyrdd a glas a'u gwasanaethau ecolegol yn ogystal â manteision iechyd a lles, gan gynnwys lliniaru perygl llifogydd, i helpu i lywio penderfyniadau cynllunio ymhlith defnyddiau eraill. Y nod yw diogelu a gwella mannau gwyrdd a glas, a chyflwyno mwy ohonynt lle mae eu hangen fwyaf, gan **atal** anghydraddoldebau pellach o ran mynediad i fannau gwyrdd o safon. Mae amcanion a nodau lles y map yn **integreiddio** gyda llawer o'n sefydliadau partner ac yn eu hategu. Mae timau Cyngor Dinas Casnewydd a Cyfoeth Naturiol Cymru wedi **gweithio ar y cyd** â Environment Systems, i greu adnodd sy'n sail i sawl defnydd arall. Pan fydd ar gael yn ehangach, gallai fod o fudd i nifer o sefydliadau partner. Y nod yw gwneud y map yn gyhoeddus mewn fformat cyfeillgar a hawdd ei ddefnyddio, a hyrwyddo'r mannau gwyrdd hygyrch a'r manteision a'r cyfleoedd iechyd a lles a ddaw yn eu sgil i bawb sy'n byw, yn gweithio neu'n ymweld â Chasnewydd. Mae'r camau nesaf yn cynnwys **cyfraniad** pobl leol i benderfynu ar y math o wybodaeth a ddangosir a sut y bydd yn edrych.

Mesurau Perfformiad

Bydd y BGC yn ceisio mesur y mesurau canlynol dros amser: Canran cyfanswm y "mannau gwyrdd trefol" hygyrch / Canran cyfanswm y mannau gwyrdd a'r seilwaith gwyrdd / Canran y natur o ansawdd da / Dangosydd Cenedlaethol 44: Statws amrywiaeth biolegol yng Nghymru (Casnewydd).

*Bydd mesurau perfformiad Mannau Gwyrdd a Diogel yn cael eu hadnewyddu erbyn diwedd 2021, yn dilyn cyhoeddi'r Weledigaeth, y Camau a'r Camau Gweithredu newydd a phenodol.

Edrych Ymlaen at y Dyfodol

Mae'r wybodaeth bellach yn cael ei chadw gyda Chyngor Dinas Casnewydd ac mae gwaith yn mynd rhagddo i wneud y wybodaeth hon yn gyhoeddus. Bydd sawl defnydd iddo sy'n cyfrannu at nifer o nodau ymyrraeth mannau Gwyrdd a Diogel.

Ymgyrchoedd 'Dim Torri ym Mai' a Dinas sy'n Caru Gwenyn Casnewydd



Diweddariad Dinas sy'n Caru Gwenyn

Ar ôl cael ei hachredu'n swyddogol fel Dinas sy'n Caru Gwenyn, mae Cyngor Dinas Casnewydd yn parhau i ymdrechu i gynyddu a gwella cynefinoedd i bryfed peillio ledled ardal yr awdurdod. Y nod yw cael o leiaf un safle peillio ym mhob ward. Eleni mae'r Cyngor wedi **cynyddu nifer y safleoedd peillio gan 21** lleoliad sy'n golygu bod **cyfanswm o 55** safle peillio dynodedig ledled Casnewydd erbyn hyn a hynny mewn 19 o'r 20 ward. Mae'r safleoedd yn amrywio o ddolydd mewn mannau agored gwyrdd mawr i arddangosfeydd blodau sy'n gyfeillgar i bryfed peillio ar gylchfannau.

Dim Torri Ym Mai

Mae'r ymgyrch "Dim Torri ym Mai" yn ymgyrch genedlaethol gan y sefydliad Plant Life. Ei nod yw mynd i'r afael â'r dirywiad mewn pryfed peillio drwy greu mwy o gynefinoedd, gan annog Awdurdodau Lleol, tirfeddianwyr a phreswylwyr i newid eu harferion torri gwair.

Croesawodd Cyngor Dinas Casnewydd y fenter / cais gan Lywodraeth Cymru ar adeg lle'r oedd adrannau Cynnal a Chadw Tiroedd awdurdodau lleol yn ei chael hi'n anodd dod â staff ychwanegol i mewn oherwydd rheoliadau Covid-19 a phellter cymdeithasol. Bu'n rhaid rhannu gweithlu Cynnal a Chadw Tiroedd Cyngor Dinas Casnewydd yn unedau llai er mwyn cydymffurfio â chyfyngiadau cerbydau a'r canllawiau a oedd yn cyfyngu ar faint o bobl yr oedd unrhyw un aelod o staff yn dod i gyswllt â hwy. Darparodd adran drafnidiaeth Cyngor Dinas Casnewydd gerbydau ychwanegol i ymdopi â'r heriau hyn.

Gan weithio'n agos ar draws adrannau a chyda Phartneriaeth Natur Leol Sir Fynwy a Chasnewydd, roedd mabwysiadu dull ardal awdurdod cyfan o ymdrin â "Dim Torri ym Mai" yn sicr yn gam beiddgar. Roedd y cyfyngiadau ymbellhau cymdeithasol a staffio yn gyfle untro i gymryd cam yn ôl a gadael i natur ffynnu. Mae wedi helpu Cyngor Dinas Casnewydd i nodi mwy o ardaloedd a lleoedd sy'n gyfoethog eu rhywogaethau i flaenoriaethu newid o ran rheoli glaswellt yn y tymor hir.

Eleni, mae rhywogaethau mwy prin o wenyn yn genedlaethol (Cardwenyn Meinlais, Cardwenyn Brown a Gwenyn Turio Clarfllys Bychain) wedi'u cofnodi mewn mwy o leoliadau ledled Casnewydd. Mae mwy o rywogaethau o'r Tegeirian hefyd wedi bod yn ymddangos mewn mannau a fyddai fel arfer wedi'u torri.

Parcdir Betws | Rhodfa Gorllewin Betws | Ffordd Sain Silian | Ymyl y Ffordd yn y Ganolfan Ddinesig

Roedd cefnogaeth amrywiol i'r dull a weithredwyd ar draws yr awdurdod o ran Dim Torri ym Mai, ond mae'r mwyafrif helaeth o'r ymatebion gan drigolion wedi bod yn hynod o gadarnhaol. Mae'r Cyngor wedi dysgu llawer o eleni ar gyfer y dyfodol. Cofnododd y ganolfan gyswllt y nifer uchaf o ganmoliaethau ym mis Mai erioed. Roedd y cyfan yn canmol Dim Torri ym Mai.

Dyfyniadau ar y Cyfryngau Cymdeithasol:

"Rhagorol! Rwy mor falch o weld y Cyngor yn cefnogi'r fenter hon!".

"Mae'n edrych yn hyfryd a dylid ei adael am fwy o amser!! 🌸😁 *Mae pryfed peillio yn dal i fod ei angen drwy gydol yr haf* 🐝🐝 *Mae glaswelltau yr un mor bwysig i rai glöynnod byw a gwyfynod".*

"Rwy'n cefnogi'r fenter hon 100%. Mae ein hwyrion a chenedlaethau'r dyfodol yn haeddu'n hymdrechion i wneud popeth o fewn ein gallu i unioni'r difrod sydd wedi'i wneud i'r amgylchedd".

Y Pum Ffordd o Weithio

Nod Cyngor Dinas Casnewydd yw parhau i gynyddu nifer y safleoedd peillio ledled Casnewydd, gan gynnwys y ffordd newydd o reoli mannau gwyrdd yn y **hirdymor**. Drwy gymorth partneriaeth ar draws y Rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diogel, bydd y cysyniad yn cael ei ehangu ar draws tirfeddianwyr eraill e.e. cymdeithasau tai, gerddi preifat a thu hwnt. Mae safleoedd peillio a newid y ffordd y mae mannau gwyrdd yn cael eu torri a'u rheoli, yn helpu i gefnogi cydnerthedd ecosystemau ac yn lliniaru yn erbyn newid yn yr hinsawdd. Mae'r cam **ataliol** hwn yn gwella bioamrywiaeth sy'n cefnogi ac atal colli bioamrywiaeth. Mae'r prosiectau'n helpu i gyfleu'r buddion i iechyd a lles pobl ynghyd â chysylltiad â natur. Mae pob partner yn cydnabod yr amrywiaeth drawsbynciol **integredig** o fuddion a geir ar draws pob nod lles trwy ddiogelu ac adfer natur, gan gefnogi lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. Bydd partneriaid y Rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diogel yn parhau i **weithio ar y cyd** i ymgysylltu â thirfeddianwyr ehangach a'u cefnogi i greu safleoedd peillio a choridorau gwyrdd, gan gynnwys annog trigolion i greu man sy'n ystyriol o fywyd gwyllt ac 'ardaloedd dim torri' yn eu gerddi eu hunain. Mae'r mentrau hyn wedi sbarduno sgyrsiau ledled Casnewydd ac wedi annog diddordeb a **chyfranogiad**. Gellir adeiladu ar hyn i greu momentwm ac ysbrydoli eraill i greu eu safleoedd peillio eu hunain a newid y ffordd y caiff mannau gwyrdd eu rheoli. Wrth symud ymlaen, gallwn gynnwys mwy o gymunedau a rhanddeiliaid ar safleoedd penodol lleol sy'n bwysig iddynt.

Mesurau Perfformiad

Bydd y BGC yn ceisio mesur y mesurau canlynol dros amser: Nifer y safleoedd peillio / Math a nifer y rhywogaethau a gofnodwyd / Adborth ar newidiadau i arferion torri gwair.

*Bydd mesurau perfformiad Mannau Gwyrdd a Diogel yn cael eu hadnewyddu erbyn diwedd 2021, yn dilyn cyhoeddi'r Weledigaeth, y Camau a'r Camau Gweithredu newydd a phenodol.

Edrych Ymlaen at y Dyfodol

Wrth edrych i'r dyfodol, nod Cyngor Dinas Casnewydd yw parhau i gynyddu nifer y safleoedd peillio ledled Casnewydd, a thrwy'r Rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diogel, parhau i ymgysylltu â phartneriaid a thirfeddianwyr eraill a'u cefnogi i greu safleoedd peillio a choridorau gwyrdd, gan gynnwys annog trigolion i greu lle sy'n ystyriol o fywyd gwyllt ac 'ardaloedd dim torri' yn eu gerddi eu hunain.

Siarter Teithio Llesol Gwent





Teithio Llesol Gwent
Healthy Travel Gwent

Fel BGC, rydym wedi "dod yn hyrwyddwyr teithio cynaliadwy, gan arwain drwy esiampl a lleihau cyfraniad y sector cyhoeddus at lygredd aer" drwy ddatblygu Siarter Teithio Llesol Gwent gyda'r pedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus arall ledled Gwent.

Lansiwyd y Siarter ym mis Tachwedd 2020 ac mae tri ar hugain o sefydliadau bellach wedi ymrwymo i'r fenter sy'n ymrwymo i gefnogi ac annog staff i deithio mewn ffordd gynaliadwy, yn ôl ac ymlaen i'r gwaith ac yn ystod y dydd.

Trwy 15 cam gweithredu uchelgeisiol, mae'r siarter yn hybu cerdded, beicio, gweithio ystwyth a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a cherbydau allyriadau isel iawn.

Mae'r sector cyhoeddus yng Ngwent yn cyflogi bron i draean o oedolion o oedran gwaith. Trwy gydweithio, nod sefydliadau sector cyhoeddus ledled Gwent yw cynyddu cyfran y teithiau cynaliadwy a wneir i leoedd gwaith ac oddi yno, gan leihau'r effaith ar yr amgylchedd a gwella iechyd pobl Gwent ar gyfer y genhedlaeth bresennol a'r rhai sydd i ddod.

Dyma'r sefydliadau sydd wedi llofnodi'r Siarter: Iechyd Cyhoeddus Aneurin Bevan Gwent, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Tai Cymunedol Bron Afon, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent, Heddlu Gwent, y Swyddfa Eiddo Deallusol (IPO), Cartrefi Melin, Cyngor Sir Fynwy, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Dinas Casnewydd, Cartrefi Dinas Casnewydd, Casnewydd Fyw, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Tai Cymunedol Tai Calon, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen, Cynghrair Gwirfoddol Torfaen, Prifysgol De Cymru a Llywodraeth Cymru.

Y Pum Ffordd o Weithio

Caiff lleihau tagfeydd traffig a chynyddu llwybrau teithio llesol fuddion **hirdymor** i iechyd a lles cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol drwy gyfrannu at wella ansawdd aer a lleihau allyriadau carbon yn ardal Casnewydd. Yn ogystal, bydd hyn yn cyfrannu at liniaru newid yn yr hinsawdd, y rhagwelir y bydd yn cael effaith negyddol sylweddol ar genedlaethau'r dyfodol. Mae ansawdd aer gwael wedi ei gysylltu â chanser, broncitis, asthma, dementia a llawer o afiechydon eraill. Bydd lleihau teithiau cymudo staff yn cyfrannu at wella ansawdd aer ac **atal** afiechyd a marwolaethau. Mae'r Siarter Teithio wedi'i **hintegreiddio** ar draws nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae'n cefnogi pump o'r nodau llesiant, **Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru fwy cyfartal a Chymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang** ac nid yw'n cael effaith andwyol ar y ddau arall. Yn ogystal, mae'n cefnogi tri o amcanion y Cynllun Llesiant. Mae 23 o sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector ledled Gwent wedi cydweithio mewn ffordd **gydweithredol** i ddatblygu'r siarter ac roedd. 4,373 o aelodau staff ledled Gwent wedi **cymryd rhan** yn yr arolwg sylfaenol. Gofynnwyd i'r staff sut yr oeddent yn teithio, yn ôl ac ymlaen i'r gwaith ac yn teithio yn ystod y diwrnod gwaith.

Mesurau Perfformiad

Cynhaliwyd arolwg staff ym mis Chwefror 2020 i ganfod llinell sylfaen o ran sut yr oedd staff yn teithio'n ddyddiol.

Targedau'r Siarter Teithio	**Targed - Mawrth 2023**	**Llinell sylfaen - Chwefror 2020**
Cymudo		
% teithiau cymudo mewn car	<77%	87%*
% teithiau ar drafnidiaeth gyhoeddus	>8%	3%*
Gweithio o Bell		
% staff sy'n gweithio gartref o leiaf unwaith yr wythnos	>25%	14%*
Milltiroedd busnes		
% ULEV a ddefnyddir yn ystod y dydd	>5%	<1%

Cynlluniwyd arolygon pellach yn flynyddol; ond mae hyn wedi'i ohirio ar hyn o bryd oherwydd y pandemig.

Edrych Ymlaen at y Dyfodol

Mae partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i weithredu'r ymrwymiadau fel sydd wedi'u nodi yn y siarter.

Partneriaeth Natur Leol Sir Fynwy a Chasnewydd



Mae Prosiect Partneriaeth Natur Leol (PNL) Cymru bellach yn ei drydedd flwyddyn. Nod y prosiect yw adeiladu rhwydwaith adfer natur i helpu i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Mae'n ymgysylltu â phobl, cymunedau, busnesau a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau drwy gamau ymarferol a chynllunio strategol ar gyfer Cymru iach, wydn a chyfoethog o ran natur.

Monmouthshire and Newport Local Nature Partnership

Partneriaeth Natur Lleol Sir Fynwy a Chasnewydd

Eleni mae Partneriaeth Natur Leol Sir Fynwy a Chasnewydd wedi cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Grant Twf Amgylcheddol Lleoedd Lleol ar gyfer Natur ac wedi darparu gwariant cyfalaf i gefnogi gydag adnoddau (peiriannau) i'n galluogi i newid ein harferion torri gwair. Mae'r prosiect hefyd wedi ein galluogi i nodi nifer o ardaloedd allweddol i ymgymryd â thasgau rheoli cadwraeth megis clirio rhedyn yn Barracks Wood / Hill, Cwm Pilton a Bryngaer Croes Trelech a thriniaeth ar gyfer Rhywogaethau Estron Goresgynnol fel Clymog Japan a rheoli'r Azolla ar Gamlas Sir Fynwy a Brycheiniog yn fiolegol.

Mae Partneriaeth Sir Fynwy a Chasnewydd hefyd wedi cefnogi grwpiau cymunedol lleol gyda gweithredu'n lleol, megis ceisio caniatâd a chynorthwyo gyda Gwybodaeth Iechyd a Diogelwch wrth drefnu grwpiau codi sbwriel, a hefyd gyda chyflwyno pecynnau Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Cadwch Gymru'n Daclus.

Cronfa Grantiau Bach y PNL



Ariannodd Partneriaeth Natur Leol Sir Fynwy a Chasnewydd Grŵp Codi Sbwriel Celtic Horizons i ymgymryd â'u prosiect bioamrywiaeth lleol eu hunain o'r enw 'Cymorth Cartref i Ddraenogod'. Crëwyd 20 o Becynnau Draenogod yn cynnwys bocs nythu addas i ddraenogod, porthiant, gwair a thaflenni gwybodaeth.

Mae'r grŵp yn gweithio gyda thîm achub draenogod lleol i adsefydlu draenogod lleol sydd wedi'u hanafu neu'n sâl, gan ddefnyddio'r pecynnau yng ngerddi trigolion lleol i ddarparu safleoedd rhyddhau â chymorth diogel ar gyfer draenogod sy'n dychwelyd i'r gwyllt.

Y Pum Ffordd o Weithio

Drwy gefnogi grwpiau cymunedol lleol, mae'r prosiect yn diwallu anghenion tymor byr mynd i'r afael â'r argyfwng natur ac yn datblygu dull **tymor hwy** o barhau â'r gwaith hwn i'r dyfodol. Mae Partneriaeth Natur Leol Sir Fynwy a Chasnewydd yn helpu i gefnogi cydnerthedd ecosystemau, adfer byd natur, a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Mae'r prosiect yn helpu i annog cysylltiad â natur sy'n gallu **atal** difrod amgylcheddol pellach drwy annog pobl i hyrwyddo bywyd gwyllt a natur. Mae cefnogi Cymru iach, gydnerth a chyfoethog o ran natur yn helpu i liniaru newid yn yr hinsawdd a'r argyfwng natur. Mae pob partner yn cydnabod yr amrywiaeth drawsbynciol **integredig** o fuddion a geir ar draws pob nod lles trwy ddiogelu ac adfer natur, gan gefnogi lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. Mae'r gwaith hwn hefyd yn cyfrannu at Amcan 3 y Cynllun Lles. Mae Sir Fynwy a Chasnewydd yn **gweithio ar y cyd** i ffurfio'r Bartneriaeth Natur Leol hon, ac yn gweithio gyda nifer o bartneriaid a sefydliadau eraill i helpu i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, gan gynnwys grwpiau cymunedol lleol. Nod y prosiect yw cynnwys ac ymgysylltu â phobl, cymunedau, busnesau a phobl sy'n gwneud penderfyniadau gyda chamau ymarferol yn ogystal â chynllunio strategol. Mae Partneriaeth Sir Fynwy a Chasnewydd yn cefnogi grwpiau cymunedol lleol gyda gweithredu'n lleol, er enghraifft, cronfa grantiau bach ar gyfer 20 pecyn 'Cymorth Cartref i Ddraenogod', gan roi cyngor i grwpiau codi sbwriel, a chefnogi'r gwaith o ddarparu pecynnau Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Cadwch Gymru'n Daclus.

Mesurau Perfformiad

Bydd y BGC yn mesur y canlynol dros amser: Canlyniadau a nifer y grwpiau cymunedol y mae'r Bartneriaeth Natur Leol yn eu cefnogi gyda grantiau / Nifer y safleoedd peillio / Canran cyfanswm y mannau gwyrdd a'r seilwaith gwyrdd / Canran natur o ansawdd uchel / Dangosydd Cenedlaethol 44: Statws amrywiaeth biolegol yng Nghymru (Casnewydd).

*Bydd mesurau perfformiad Mannau Gwyrdd a Diogel yn cael eu hadnewyddu erbyn diwedd 2021, yn dilyn cyhoeddi'r Weledigaeth, y Camau a'r Camau Gweithredu newydd a phenodol.

Edrych Ymlaen at y Dyfodol

Bydd Partneriaeth Natur Leol Sir Fynwy a Chasnewydd yn parhau i helpu i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth gyda chamau ymarferol a chynllunio strategol ar gyfer Cymru iach, gydnerth a chyfoethog o ran natur.

Bysus Allyriadau Isel Iawn a Gwelliannau i Safleoedd Bysus



Ym mis Awst 2019, cyflwynodd Trafnidiaeth Casnewydd y bws cyntaf mewn gwasanaeth rheolaidd yng Nghymru sy'n gweithredu ar drydan yn llwyr. Roedd hyn yn enghraifft i'r ddinas o ddefnyddio technoleg dim allyriadau. Dangoswyd bod perfformiad y cerbyd yn foddhaol iawn, yn cael ei ddefnyddio ar bob un o lwybrau dyletswyddau bysus y gweithredwr ac eithrio'r rhai sy'n ymwneud â phellteroedd hirach. Roedd y cerbyd wedi llwyddo i gyflawni'n hawdd y gofyniad amrediad uchaf o 210 milltir. Yna, archebwyd 14 o gerbydau pellach, a ariannwyd gan gynllun Bysus Allyriadau Isel Iawn yr Adran Drafnidiaeth ac erbyn hyn mae gan Fws Casnewydd 15 o fysus ULEV ar waith (cerbyd allyriadau isel iawn yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio unrhyw gerbyd sy'n gollwng llai na 75g o CO_2 fesul km o'r bibell fwg).

Mae bysus Casnewydd yn cael eu cyflenwi ar sail 'plygio a chwarae'. Mae Zenobe Energy yn darparu'r seilwaith gwefru, gan gynnwys storio batris ar y safle. Zenobe sy'n berchen ar fatris y cerbydau ac mae'n gyfrifol am y perfformiad ac amnewid y batris pan fo angen. Drwy ei berchnogaeth o'r seilwaith cysylltiedig, mae Zenobe hefyd yn gwarantu y bydd y bysus yn cael eu gwefru yn ôl yr angen. Mae'r seilwaith wedi'i adeiladu gydag anghenion yn y dyfodol mewn golwg a chyda chynllun wrth gefn fel y gellir ehangu'r pecyn wrth i'r fflyd o fysus trydan batri yng Nghasnewydd dyfu. Yn ogystal, gellir symud y system fodiwlaidd i rywle arall os bydd angen adleoli'r depo.

Bws Casnewydd oedd y gweithredwr cyntaf yn y DU i fanteisio ar yr opsiwn 'plygio a chwarae' ar gyfer cylch oes llawn bysus trydan. Mae gwneud hynny'n dileu cost gychwynnol uchel ar gyfer y seilwaith a'r cerbydau ac yn gwarantu y bydd pob bws yn cael ei wefru'n ddigonol ar ddechrau pob diwrnod.

Mae batris storio o fewn y depo yn cefnogi'r galw am drydan ar yr oriau brig a gellir tynnu batris o fysus at y diben ail oes hwnnw, felly gellir rhoi gwerth gweddilliol uwch iddynt.

Y Pum Ffordd o Weithio

Mae manteision **hirdymor** o leihau allyriadau carbon o drafnidiaeth gyhoeddus i iechyd a lles cenedlaethau presennol a'r dyfodol. Yn ogystal, bydd hyn yn cyfrannu at liniaru newid yn yr hinsawdd, y rhagwelir y bydd yn cael effaith negyddol sylweddol ar genedlaethau'r dyfodol. Bydd hyn hefyd yn cyfrannu at wella ansawdd aer ac **atal** afiechyd a marwolaethau. Mae cyflwyno bysus allyriadau isel iawn yn cymryd agwedd **integredig** tuag at les ac mae'n cefnogi chwech o'r nodau lles ac nid yw'n cael effaith andwyol ar yr un arall. Yn ogystal, mae'n cefnogi tri o amcanion y Cynllun Lles. Mae Bws Casnewydd wedi gweithio **ar y cyd** â Zenobe Energy i gyflwyno'r prosiect.

Edrych Ymlaen at y Dyfodol

Mae cynlluniau i uwchraddio safleoedd bws ledled Casnewydd ar y gweill. Bydd hyn yn gwella'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus i safonau'r Metro ac yn cynnwys gwybodaeth electronig amser real i deithwyr mewn safleoedd bysus. Mae archeb am 40 o safleoedd bws o ansawdd uchel wedi'i gosod yn ddiweddar, ond mae yna oedi oherwydd Covid-19.

Adroddiad Blynyddol Gwent yn Barod ar gyfer yr Hinsawdd 2020-21

Mae rhwydwaith Gwent yn Barod ar gyfer yr Hinsawdd, a gychwynnwyd drwy Grŵp Gweithredu Lles Strategol Gwent (GGLlSG) ac a arweinir gan Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ceisio hwyluso newid ar lefel ranbarthol. Drwy gydweithio, nod y rhwydwaith amrywiol hwn yw cyflymu gweithgareddau'r sector cyhoeddus o ran datgarboneiddio cydweithredol ac addasu i'r hinsawdd, gan roi modd i bobl a lleoedd oresgyn yr heriau sydd o'n blaenau. Yn dilyn y tanau gwyllt a'r llifogydd dinistriol a gafwyd yn yr ardal yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn ogystal â synergedd ar draws meysydd y cynlluniau lles, daeth yn amlwg y byddai angen ymateb integredig a chydweithredol ar Weithredu ar y newid yn yr Hinsawdd. Drwy flaenoriaethu Gweithredu ar y newid yn yr Hinsawdd fel hyn, mae cyrff cyhoeddus yn ardal Gwent wedi dewis mynd i'r afael â'r her hon mewn ffordd sy'n cyfrannu at nodau ac amcanion lles lluosog, gan geisio sicrhau nad yw anghenion cenedlaethau'r dyfodol yn cael eu peryglu gan weithredoedd neu ddiffyg gweithredu heddiw.

Yn ystod 2020-21, cyflwynwyd amrywiaeth o fecanweithiau darparu yng Nghasnewydd i gefnogi gwaith Gwent yn Barod ar gyfer yr Hinsawdd, gan gynnwys yr enghreifftiau canlynol o arfer gorau lleol:

Mae 62 o unedau gwefru cyflym 22kw deuol newydd wedi'u gosod mewn 34 safle ledled Gwent.

Wedi'i gyflwyno mewn partneriaeth rhwng pum awdurdod lleol Gwent. Darparwyd grant o £465,000 ar gyfer y prosiect gan Swyddfa Cerbydau Allyriadau Isel (OLEV) Llywodraeth y DU, gydag arian cyfatebol yn cael ei ddarparu gan bob awdurdod lleol. Cyfrannodd Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru arian tuag at astudiaeth o ddichonoldeb i gefnogi datblygiad y prosiect.

Mae hyfforddiant Carbon-wybodus sy'n benodol i Gwent wedi'i ddatblygu a'i gyflwyno ar draws y sector cyhoeddus.

Derbyniodd 220 o unigolion ar draws Sector Cyhoeddus Gwent, gan gynnwys Uwch Gweithredwyr ac Aelodau Etholedig, hyfforddiant. Cynlluniodd Gwent yn Barod ar gyfer yr Hinsawdd gwrs hyfforddi Carbon-wybodus oedd yn benodol i Gwent gyda'r gobaith o gyflwyno hyn ymhellach drwy raglen "hyfforddi'r hyfforddwr" yn 21/22. Mae nifer o fentrau ac addewidion trawsffiniol wedi dod i'r amlwg, drwy sgwrsio â chyfranogwyr, y bydd Gwent yn Barod ar gyfer yr Hinsawdd yn parhau i'w gefnogi.

Cyflenwad Ynni

- Wedi'i adeiladu yn ystod haf 2020, dyma'r to solar mwyaf yng Nghymru
- Bydd y prosiect yn cynhyrchu bron i 2 filiwn KWh bob blwyddyn...
- ... gan arbed 412 tunnell o CO_2 bob blwyddyn

Felodrom Genedlaethol Cymru Geraint Thomas, Pentref Chwaraeon Rhyngwladol Casnewydd.

https://youtu.be/AcxIKfEodBw

Cyngor Casnewydd

Myfyrdodau

Mae 2020-21 wedi bod yn flwyddyn o ehangu ar gyfer Gwent yn Barod ar gyfer yr Hinsawdd. Mae'r ymdrech, yr amser a'r ymddiriedaeth sydd wedi'i meithrin gyda phartneriaid wedi dechrau talu'r ffordd. Mae'r rhwydwaith wedi manteisio ar y ffyrdd newydd o weithio sydd wedi dod i'r amlwg fel ymateb i gyfyngiadau'r cyfnod cloi drwy gyflymu cyfleoedd i hyfforddi a chydweithio ar lwyfan rhithwir, addasu'r ddarpariaeth i fod 100% ar-lein a chreu cynnwys digidol y gellir ei ailddefnyddio a'i gyrchu mewn ffordd hyblyg. Mae'r ffordd hon o weithio yn cyd-fynd â'r rhanddeiliaid a'r partneriaid yr ydym yn eu targedu ac ethos hunaniaeth Gwent yn Barod ar gyfer yr Hinsawdd.

Mae Gwent yn Barod ar gyfer yr Hinsawdd wedi magu hyder fel rhwydwaith, wedi ehangu ei gyrhaeddiad ar draws sefydliadau yn sylweddol ac mae'n dechrau deall y gofod y gall weithredu'n llwyddiannus ynddo ac ychwanegu gwerth at wneud penderfyniadau lleol a rhanbarthol.

Cynlluniau Ychwanegol ar gyfer y Dyfodol

Gwobr y Faner Werdd

Y bwriad yw annog mwy o geisiadau a chynyddu nifer y Gwobrau Baner Werdd cymunedol a llawn ar gyfer 2022.

Asesiad Seilwaith Gwyrdd

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i bob awdurdod cynllunio yng Nghymru gynnal Asesiad Seilwaith Gwyrdd (ASG). Mae Asesiad Seilwaith Gwyrdd ar y gweill yng Nghasnewydd a'i ddiben yw darparu sylfaen dystiolaeth i lywio a siapo'r gwaith o gynllunio a darparu Seilwaith Gwyrdd. Mae gan seilwaith gwyrdd (y rhwydwaith o wlyptiroedd, coetiroedd, dyfrffyrdd, rhandiroedd, gerddi, coed stryd, toeau gwyrdd, ymylon

ffyrdd, ac ati) y potensial i ddarparu ystod eang o fanteision i bobl a bywyd gwyllt. Y nod yw cwblhau'r ASG erbyn 2022.

Adolygiad o Fesurau Perfformiad Mannau Gwyrdd a Diogel

Mae adolygiad o fesurau perfformiad Mannau Gwyrdd a Diogel ar y gweill a fydd yn cael ei gwblhau erbyn diwedd 2021, er mwyn rhoi mwy o eglurder o ran mesur cynnydd, canlyniadau a llwyddiant yr ymyriad.

Gwastadeddau Byw

Mae'r prosiect Gwastadeddau Byw yn parhau i gyflawni ei brosiectau a'i ffrydiau gwaith niferus sy'n hyrwyddo, ail-lunio, gwella a dathlu Gwastadeddau Gwent.

Cynllun Amddiffyn Rhag Llifogydd Stephenson Street

Mae'r cynlluniau ar gyfer cynllun Amddiffyn Rhag Llifogydd Stephenson Street yn cynnwys gwelliannau i fannau gwyrdd Parc Coronation, gan gynnwys mwy o blannu, a gwelliannau i lwybr yr arfordir. Bydd y gwaith adeiladu o bosibl yn dechrau yn ddiweddarach yn 2021, yn dilyn cymeradwyaeth gynllunio.

Gwerthuso Partneriaethau

Ers 2013, rydym ni fel Bwrdd Gwasanaethau Lleol gynt, a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) presennol, wedi cynnal ymarferion bob dwy flynedd i hunanwerthuso ein heffeithiolrwydd ein hunain a rhai'r bartneriaeth ehangach wrth gyflawni'r Cynllun Integredig Sengl blaenorol a'r Cynllun Llesiant presennol.

Yn ystod 2019, cynigiom hunanwerthusiad newydd ar ôl cwblhau blwyddyn gyntaf y Cynllun Llesiant. I gefnogi hyn, cynhaliwyd Gweithdy Byrddau Iach ym mis Mawrth 2019 a hwyluswyd gan Academi Cymru, a edrychodd ar yr heriau unigryw i BGCau; beth mae bwrdd partneriaeth iach yn ei wneud; y realiti i'r rhan fwyaf o BGCau; a meysydd i ganolbwyntio arnynt ar gyfer gwelliant posibl.

Ym mis Mehefin 2019, cytunodd y BGC i gynnal ymarfer gwerthuso newydd, gan barhau â'r rhaglen hunanwerthuso strwythuredig bob dwy flynedd. Gwnaeth deg o'n haelodau gwblhau a chyflwyno ymatebion, gyda chonsensws ein bod yn perfformio'n dda yn erbyn y rhan fwyaf o'r dangosyddion.

Cynllun Camau Datblygu Byrddau

Cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru (a ailenwyd yn Archwilio Cymru yn ddiweddar) adolygiad o BGCau ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, gyda'r adroddiad yn gwneud argymhellion ar feysydd i'w gwella.

Yn gyffredinol, daeth i'r casgliad nad yw BGCau yn debygol o gyflawni eu potensial oni bai eu bod yn cael rhyddid i weithio'n fwy hyblyg, a meddwl a gweithredu'n wahanol.

Gyda'i gilydd, awgrymodd ein hymarfer hunanwerthuso ein hunain ac adolygiad SAC feysydd i ni eu datblygu wrth symud ymlaen, gyda chynllun gweithredu ar gyfer datblygu yn cael ei gytuno ym mis Rhagfyr 2019. O fewn y cynllun gweithredu, cytunodd y Bwrdd i:

- Adolygu'r Cynllun Llesiant yn flynyddol a gwneud cynigion ar unrhyw newidiadau i'r BGC er mwyn sicrhau y gallwn addasu i amgylchiadau sy'n newid.

Adolygiad o'r Cynllun Llesiant

Ym mis Mehefin 2020, ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ynghylch eu rôl yn yr adferiad o Covid-19 ac awgrymodd eu bod, gan ystyried y pandemig, yn edrych a yw'r amcanion a'r blaenoriaethau mewn cynlluniau llesiant lleol yn parhau â'r pwyslais cywir.

Yn ogystal, cyhoeddodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020 gydag argymhellion ar gamau y gallai cyrff cyhoeddus eu cymryd i gyfrannu at y Nodau Llesiant.

Gan ystyried y gofynion hyn a Chynllun Gweithredu Datblygu'r Bwrdd, cytunwyd i adolygu Amcanion Llesiant y BGC; Gwerthoedd y Cynllun Llesiant; a'r gweledigaethau, y camau a'r camau gweithredu ar gyfer yr ymyriadau yn ein Cynllun Llesiant.

Amcanion Llesiant y BGC

Ym mis Rhagfyr 2020, derbyniodd y BGC gyfres o newidiadau arfaethedig i eiriad ei amcanion llesiant, gan ystyried effeithiau Covid-19 ac argymhellion adroddiad blynyddol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Cefnogodd yr Aelodau'r amcanion diwygiedig ond cynigiodd newidiadau ychwanegol, a gadarnhawyd wedyn gan y BGC yn eu cyfarfod ym mis Mawrth 2021.

Mae'r amcanion llesiant diwygiedig terfynol fel a ganlyn:

1) Mae pawb yn teimlo'n dda am fyw, gweithio a buddsoddi yn ein dinas unigryw, ac am ymweld â hi.

2) Mae gan bawb y sgiliau a'r cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i ddatblygu a ffynnu ac i gyfrannu at ddinas ffyniannus a chynaliadwy.

3) Mae pawb yn perthyn i gymunedau cadarn, cyfeillgar a chysylltiedig ac yn teimlo'n hyderus ac wedi'u grymuso i wella eu llesiant.

4) Mae gan Gasnewydd amgylcheddau iach, diogel a gwydn gyda rhwydwaith teithio cynaliadwy integredig.

Gwerthoedd y BGC

Cynhwyswyd set o 5 gwerth yn y cynllun llesiant yn wreiddiol, y byddai'r BGC yn ymrwymo iddo wrth gydweithio â chymunedau lleol ar eu nodau a'u hamcanion cyffredin a nodir yn y cynllun.

Ym mis Mawrth 2021, derbyniodd y BGC gyfres o werthoedd / addewidion diwygiedig arfaethedig, y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd. Mae'r gwerthoedd diwygiedig terfynol hyn fel a ganlyn:

- Uchelgeisiol
- O ddifrif am weithio mewn partneriaeth
- Canolbwyntio'n gadarn ar bobl a'u straeon
- Canolbwyntio ar amcanion llesiant integredig

Adolygiadau Ymyrraeth

Yn ystod 2020-21 cynhaliwyd nifer o adolygiadau gan bob un o Fyrddau Ymyrraeth y Cynllun Llesiant, gan ystyried a oedd eu gweledigaethau a'u camau yn dal yn berthnasol mewn ymateb i amgylchiadau sy'n newid.

Cwblhawyd adolygiadau gan bedwar o'r pum ymyriad, gyda'r BGC yn cymeradwyo'r newidiadau diwygiedig i'w gweledigaethau a'u camau. Mae'r Ymyrraeth Cymunedau Cryf, Cydnerth yn dal heb ei bodloni oherwydd bod nifer o sefydliadau partner yn cael eu dargyfeirio i waith ymateb i argyfwng yn ymwneud â Covid-19 ac argyfyngau cymunedol eraill, gyda'r adolygiad arfaethedig yn cael ei gynnal yn ystod 2021-22.

Wrth ddatblygu'r adolygiadau hyn, lluniodd y Byrddau Ymyrraeth adroddiadau yn amlinellu'r broses a gymerwyd a'r canlyniadau a gafwyd, y gellir eu gweld isod:

- Teithio Cynaliadwy (cymeradwywyd gan y BGC ym mis Medi 2020)
- Sgiliau Cywir (cymeradwywyd gan y BGC ym mis Rhagfyr 2020)
- Mannau Gwyrdd a Diogel (cymeradwywyd gan y BGC ym mis Mawrth 2021)
- Cynnig Casnewydd (cymeradwywyd gan y BGC ym mis Mehefin 2021)

O'r adolygiadau hyn, cynigiwyd drwy'r ymyriadau newidiadau arfaethedig i bob un o'u gweledigaethau, gyda'r BGC yn cytuno mai'r weledigaeth ddiwygiedig ar gyfer Cynnig Casnewydd fyddai'r weledigaeth ar gyfer y Cynllun Llesiant cyfan. Mae'r gweledigaethau newydd fel a ganlyn:

Gweledigaeth ar gyfer Cynnig Casnewydd / y Cynllun Llesiant

Dinas falch a chyfeillgar lle mae pobl a lleoedd yn ffynnu nawr ac yn y dyfodol.

Gweledigaeth ar gyfer Teithio Cynaliadwy

Teithio effeithlon, diogel ac iach, sy'n hygyrch i bawb, gydag effaith isel gyffredinol ar yr amgylchedd, gan flaenoriaethu cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus integredig a hefyd ystyried rhannu ceir a cherbydau allyriadau isel iawn.

Gweledigaeth ar gyfer Sgiliau Cywir

Gall pobl fanteisio ar raglenni sgiliau ac addysg sy'n cefnogi bywyd sy'n cael ei fyw'n dda ac yn cyd-fynd â chyfleoedd cyflogaeth lleol cynaliadwy ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, gan alluogi unigolion a chymunedau i gyflawni eu potensial.

Gweledigaeth ar gyfer Mannau Gwyrdd a Diogel

Mae gan Gasnewydd ecosystemau ffyniannus iach lle mae pob cymuned yn teimlo'n gysylltiedig â natur a bod ganddynt fynediad hawdd i le gwyrdd a glas diogel o ansawdd ar gyfer iechyd, llesiant, chwarae a hamdden.

Symud i BGC Rhanbarthol

Tan nawr bu gan bob awdurdod lleol yng Ngwent ei BGC ei hun. O fis Medi 2021 bydd un BGC Gwent yn uno'r holl bartneriaid gwasanaethau cyhoeddus yng Ngwent i lunio asesiad llesiant rhanbarthol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cynllun llesiant rhanbarthol erbyn 2023. Yng Nghasnewydd rydym wedi ymrwymo i gynnal partneriaeth leol gref a fydd yn cefnogi BGC Gwent a sicrhau ein bod yn cyflawni ein Cynllun Llesiant presennol.

Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu Partneriaeth Casnewydd yn Un / Grŵp Cyflawni Lleol ar ôl symud i BGC rhanbarthol, bydd y Bartneriaeth yn ystyried yr hyn sydd wedi gweithio'n dda hyd yma ac unrhyw newidiadau neu ddatblygiad a allai ei helpu i weithredu hyd yn oed yn fwy effeithiol yn y dyfodol.

Fframwaith Cyflawni a Pherfformiad

Bob blwyddyn datblygir Fframwaith Cyflawni a Pherfformiad yn disgrifio sut rydym yn rheoli cyflawniad a pherfformiad. Yn rhan o'r fframwaith, ac i gefnogi swyddogaeth y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus a'r gwaith o gyflawni'r cynllun, sefydlwyd strwythur partneriaeth (isod). Nodir rolau a chyfrifoldebau'r grwpiau yn y fframwaith.

Yn ystod 2020-21 effeithiodd pandemig Covid-19 ar sut yr adroddodd y BGC ar berfformiad, gan gynhyrchu diweddariadau (dangosfyrddau perfformiad) ar hanner blwyddyn a diwedd y flwyddyn yn unig. Bydd y ffordd yr ydym yn rheoli'r ddarpariaeth a'r perfformiad wrth symud ymlaen yn seiliedig ar y BGC rhanbarthol, gyda'r broses leol yn cael ei datblygu o'r strwythurau newydd hyn.

Strwythur Darparu Partneriaeth

Mae'r strwythur hwn yn dangos y trefniadau llywodraethu ar gyfer darparu mewn partneriaeth yn 2020-21.



Mesur Cynnydd

Yn ystod ail flwyddyn y broses gweithredu, rydym yn parhau i nodi mesurau perfformiad priodol fel y gall cynnydd a chanlyniadau go iawn gael eu sicrhau. Mae cipolwg o'r mesurau hyn wedi'i gynnwys ym Mhennod 3 ond nid ydym bob amser yn dangos darlun llawn o'r gwaith sy'n cael ei wneud.

Wrth symud ymlaen, byddwn yn ceisio mireinio'r mesurau a ddefnyddir i ddangos cynnydd er mwyn deall yn well sut mae'r ymyriadau a roddwyd ar waith yn cael effaith ar les pobl. Mae'r gwaith hwn wedi dechrau cael ei gynnal yn ystod yr adolygiadau a gynhaliwyd gan bob un o'r ymyriadau fel yr amlinellir ym Mhennod 4.

Mynegai Lleoedd Ffyniannus Cymru

Yn Adroddiad Blynyddol y llynedd mesurom lesiant Casnewydd yn ei chyfanrwydd trwy adolygu'r Mynegai Lleoedd Ffyniannus Cymru yn flynyddol. Mae'r data diweddaraf ar gyfer 2021 wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar a gellir ei weld ar y wefan Mynegai Lleoedd Ffyniannus.

Mae'r mynegai'n defnyddio ystod eang o fesurau sy'n adlewyrchu'r ddealltwriaeth gynyddol bod llesiant yn gysyniad aml-ddimensiynol, wedi'i bennu gan lawer o ffactorau amrywiol. Mae'r ffactorau hyn yn tueddu i fod wedi'u cysylltu'n achosol â'i gilydd i greu 'gwe' o amodau sy'n effeithio ar lesiant pobl.

Mae Lleoedd Ffyniannus Cymru'n offeryn ymarferol ar gyfer gweithredu polisi a chamau gweithredu lleol sy'n cyflawni lles. Mae'n darparu ffordd gyson a chymaradwy o gytuno, mesur a thracio cynnydd tuag at nodau a rennir, 'arian cyffredin' ar draws a rhwng sectorau a daearyddiaeth.

Cyhoeddir y mynegai yn flynyddol ers mis Ebrill 2018 cyn cyhoeddi'r Cynllun Lles. Ddwy flynedd yn ddiweddarach, mae'n rhy gynnar o hyd i weld effaith hirdymor y Cynllun Lles, fodd bynnag, gall y mynegai amlygu lle y mae pethau'n gwella a meysydd i'w datblygu. Rhestrir y mynegai ar gyfer Casnewydd o gwmpas tri dimensiwn. Nodir y dimensiwn cyntaf, amodau lleol, yn y tabl isod:

AMODAU LLEOL	2018	2019	2020	2021
	4.37	**4.41**	**4.42**	**4.67**
Lle ac Amgylchedd	**3.84**	**3.55**	**3.47**	**3.94**
Trafnidiaeth	5.12	4.91	4.63	4.46
Diogelwch	2.42	2.31	2.26	3.69
Tai	3.86	3.28	4.15	3.89
Yr Amgylchedd Lleol	3.95	3.69	2.82	3.72
Iechyd Meddwl a Chorfforol	**5.10**	**4.78**	**4.74**	**5.14**
Ymddygiadau Iach a Pheryglus	6.16	6.12	5.77	6.19
Statws Iechyd yn Gyffredinol	4.85	3.67	4.39	5.13
Marwolaethau a disgwyliad oes	4.38	4.34	4.18	4.61
Iechyd meddwl	5.00	5.00	4.62	4.62
Addysg a Dysgu	**4.81**	**5.19**	**4.76**	**4.95**
Oedolyn	3.91	4.52	4.76	4.70
Plant	5.71	5.85	4.76	5.21
Gwaith ac Economi Leol	**4.04**	**4.45**	**4.82**	**4.70**
Diweithdra	4.23	4.28	4.33	5.14
Swyddi Da	2.70	6.54	6.89	4.06
Amddifadedd	5.52	2.72	3.44	5.49
Busnes lleol	3.71	4.26	4.61	4.10
Pobl a Chymuned	**4.09**	**4.07**	**4.30**	**4.62**
Cyfranogiad	3.83	3.86	4.57	4.58
Diwylliant	4.17	4.17	4.17	4.17
Allgáu cymdeithasol	4.58	4.47	4.47	5.73
Cydlyniad cymunedol	3.78	3.78	4.00	4.00

Mae'r dimensiwn amodau lleol yn dangos ychydig o welliant yn gyffredinol o 4.37 yn 2018 i 4.67 yn 2021. Mae'r dimensiwn wedi'i rannu'n bum parth a gwelwyd y gwelliannau cryfaf ar gyfer y porth gwaith ac economi leol, sy'n cynnwys is-barthau diweithdra, swyddi da, amddifadedd a busnesau lleol.

Dangosir yr ail ddimensiwn, cynaliadwyedd yn y tabl isod:

CYNALIADWYEDD	2018	2019	2020	2021
	4.50	**4.89**	**5.48**	**5.43**
Allyriadau CO2	3.42	4.91		
Ôl-troed ecolegol/ Seilwaith Gwyrdd	5.93	5.93	5.86	5.33
Ailgylchu/gwastraff y cartref	3.86	5.33	4.31	5.29
Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy / Defnyddio ynni	4.80	3.39	6.07	5.71

Mae'r dimensiwn cynaliadwyedd yn dangos gwelliant cyffredinol o 4.50 yn 2018 i 5.43 yn 2021 ond gallai hyn fod oherwydd newidiadau yn y dangosyddion a ddefnyddir.

Dangosir y trydydd dimensiwn, cydraddoldeb, yn y tabl isod:

CYDRADDOLDEB	2018	2019	2020	2021
	4.68	**4.43**	**5.10**	**4.30**
Iechyd	4.59	4.59	5.47	5.47
Incwm	5.36	5.38	4.67	4.41
Lles	4.09	4.26		
Cyflogaeth			5.59	2.90

Mae'r dimensiwn cydraddoldeb yn dangos gostyngiad bach o 4.68 yn 2018 i 4.30 yn 2021 ar ôl gwelliant blaenorol yn 2020. Effeithiwyd ar y gostyngiad hwn gan sgôr llawer llai ar gyfer yr is-barth cyflogaeth rhwng 2020 a 2021, sy'n seiliedig ar anghydraddoldeb a'r bwlch yn y gyfradd gyflogaeth rhwng y rhai sydd â chyflwr iechyd hirdymor a'r gyfradd gyflogaeth gyffredinol. Wrth edrych ar y sgôr yma o'i gymharu â'n hawdurdodau lleol cyfagos, mae'r gwahaniaeth yn llai amlwg, gyda phawb yn is na chyfartaledd Cymru o 5.00: Torfaen – 4.16 (ambr); Blaenau Gwent – 2.47 (coch); Caerffili – 3.74 (ambr); a Sir Fynwy – 4.16 (ambr). Fodd bynnag, mae'n ddigon credadwy y gallai unrhyw ddirywiad yn y sgôr yma fod yn gysylltiedig ag effaith y pandemig, gyda'r rhai sydd â chyflwr iechyd hirdymor yn fwy tebygol o fod ar y cynllun ffyrlo. Gall hyn fod yn rhywbeth i'r bartneriaeth ei archwilio ac ystyried ei symud yn ei flaen os yw hyn yn parhau i fod yn destun pryder.

Yn gyffredinol, wrth adolygu'r sgoriau ar gyfer Casnewydd, cofiwch eu bod yn cael eu dylanwadu gan y ffordd yr ydym wedi'n graddio yng Nghymru. Felly, mae cysylltiad uniongyrchol rhwng ein sgoriau a'r ffordd y mae awdurdodau lleol eraill yn gwella neu'n gwaethygu ac nid yw'n seiliedig ar berfformiad unigol Casnewydd yn unig.

Gellir dod o hyd i restr lawn o ddangosyddion 2021 yma.

Dangosyddion Cenedlaethol

Roedd y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru asesu cynnydd tuag at gyflawni'r nodau lles. O fis Medi 2015 tan fis Ionawr 2016 cynhaliodd Llywodraeth Leol ymgynghoriad cyhoeddus eang i nodi pa gyfres fach o ddangosyddion a ddylai gael eu datblygu i fesur cynnydd orau yn erbyn y nodau lles. Cyhoeddwyd y dangosyddion cenedlaethol hyn ym mis Mawrth 2016 a'u gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae 46 o ddangosyddion cenedlaethol, a gynlluniwyd i gynrychioli'r canlyniadau ar gyfer Cymru, a'u phobl a fydd yn helpu i ddangos cynnydd tuag at y 7 nod lles. Ni fwriedir iddynt fod yn ddangosyddion perfformiad ar gyfer sefydliad unigol.

Gellir gweld y data a'r crynodebau diweddaraf o bob dangosydd ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae'r dangosyddion hyn yn parhau i gefnogi ein monitro perfformiad ehangach er mwyn asesu lles ehangach Cymru a lles ein cymuned leol.

Rheoli Risgiau Hirdymor

Rydym hefyd yn llunio ffordd o nodi risgiau hirdymor y dyfodol ar y cyd â'r pedwar BGC arall yng Ngwent. Bydd hyn yn ein galluogi fel BGC a phartneriaid eraill ledled Gwent i asesu a monitro risgiau hirdymor (hyd at 25 mlynedd) a chyfleoedd i'n cymunedau. Gall risgiau hirdymor fod yn anodd eu diffinio ac yn anodd cynllunio ar eu cyfer, a'u rheoli, ond mae'r buddion a geir o wneud hynny yn glir.

Y sbardunau o fewn y broses yw problemau, tueddiadau a datblygiadau newydd sydd ar ymylon y gwaith cynllunio presennol ac a allai newid marchnadoedd, agweddau at wasanaethau a'r galw amdanynt.

Mae siart risgiau, cofrestr a bwrdd gwaith y dyfodol wedi'i ddylunio sy'n canolbwyntio ar ragweld risgiau'r dyfodol drwy nodi ffactorau risg posibl ac olrhain eu datblygiad. Mae hwn yn meithrin dealltwriaeth systematig ddyfnach ledled y bartneriaeth ac yn galluogi partneriaid i baratoi a chydlynu ymateb cyfunol.

Oherwydd effaith Covid-19, cafodd y gwaith hwn ei ohirio'n lleol a chaiff ei ailystyried fel rhan o Asesiad Llesiant Gwent a'r gwaith o ddatblygu Cynllun Llesiant Gwent gan ystyried unrhyw risgiau sy'n dod i'r amlwg a nodwyd yn ystod y pandemig.

Atebolrwydd

Er mwyn sicrhau atebolrwydd democrataidd mae angen i bwyllgor craffu llywodraeth leol dynodedig yr awdurdod lleol perthnasol graffu ar waith y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus.

Yng Nghasnewydd, y pwyllgor craffu sy'n gyfrifol am graffu ar waith y BGC yw'r Pwyllgor Craffu ar Berfformiad – Partneriaethau a gadeirir gan y Cynghorydd James Clarke. Mae naw aelod i'r pwyllgor, ac i sicrhau cysondeb, mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Craffu yn adlewyrchu'r hyn a gytunwyd gan y BGC.

Yn ystod 2020-21, llwyddodd y Pwyllgor i graffu ar y diweddariad canol blwyddyn ar 24 Chwefror 2021, a chofnodwyd y canlynol:

> *"Roedd y Pwyllgor yn falch o glywed am gryfder y BGC a nododd ei fod yn galonogol iawn deall bod eu partneriaeth wedi cryfhau. Gwnaed sylw ychwanegol bod arwyddion clir iawn o weithio mewn partneriaeth rhagorol a bod y BGC yn amlwg yn dîm da iawn.*
>
> *Rhoddodd y BGC hyder i'r Pwyllgor fod yr hyn yr oeddent yn ei ddweud yn wir. Roedd yna deimlad gwirioneddol eu bod nhw'n gyd-gysylltiedig."*

Caiff trydydd Adroddiad Blynyddol y Cynllun Llesiant ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu ar 6 Hydref 2021 ar ôl ei gyhoeddi er mwyn eu galluogi i graffu ar waith y BGC yn llawn.

Er mwyn cefnogi'r broses graffu, cyhoeddodd Swyddfa'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Fframwaith Craffu Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r fframwaith hwn yn cefnogi penderfyniadau a chraffu ac yn gyfres o sbardunau a allai helpu unrhyw un sy'n awyddus i ofyn cwestiynau am sut mae penderfyniad wedi'i wneud. Wrth i ni barhau i weithio gyda'r pwyllgor craffu byddwn yn defnyddio'r fframwaith fel adnodd ar gyfer herio'n briodol a gwella'n barhaus.

Rhagor o wybodaeth

Datblygwyd nifer o ddogfennau ategol fel a ganlyn:

Proffil Lles Cymunedol (Asesiad o Les Lleol)

Cynllun Lles Casnewydd 2018-23

Fideo wedi ei animeiddio ar Les

Dewis Blaenoriaethau sy'n Dod i'r Amlwg

Dadansoddiad o Ymatebion (RA1) – Deall Canlyniadau

Dadansoddiad o Ymatebion (RA2) - Cysylltu Ymyriadau â Chanlyniadau

Cynllun Lles (Crynodeb hawdd ei ddarllen) – drafft

Adroddiad Blynyddol Cynllun Lles 2018-19

Adroddiad Blynyddol Cynllun Lles 2019-20 – pdf / Microsoft Sway

Am ragor o wybodaeth am BGC Casnewydd yn Un, y Cynllun Lles Lleol neu drefniadau partneriaeth yn y ddinas ewch i'n gwefan yn www.newport.gov.uk/oneNewport.

Manylion Cyswllt

Tîm Polisi, Partneriaeth ac Ymglymiad Casnewydd yn Un

Cyngor Dinas Casnewydd

Canolfan Ddinesig

Casnewydd NP20 4UR

Ffôn: (01633) 656656

E-bost: one.newport@newport.gov.uk

Twitter: @OneNewport

Instagram: @OneNewport